

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Mai 2012

Rhif 422

50c

GOBAITH I DDYFODOL YR ARDAL



LLAWENYDD i'r ardal yn sgil diriwiad yng nghyflwr stryd fawr Bethesda gyda busnesau yn cau rownd y rîl yw'r newyddion bod cwmni *Zip World Ltd* wedi cael y golau gwyrdd i agor Weiran Wib (*zip wire*) dros ran o Chwarel y Penrhyn sydd ddim yn cael ei defnyddio.

Bydd hyd y weiran yn 1,500 metr ac mae'r cwmi'n honni mai yn Nyffryn Ogwen y bydd y Weiran Wib fwyaf yn hemisffer y Gogledd, gyda'r bwriad o ddenu oddeutu 30,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

Er bod Dyffryn Ogwen yn gartref i'r Carneddau a'r Glyderau, a bod llawer llety a gwesty yn yr ardal y mae'r rhan fwyaf o'r cerddwyr sy'n mentro i'r ardal yn aros mewn mannau tu allan i'r Dyffryn ac yn defnyddio eu cyflusterau nhw yn hytrach na'r hyn sydd ar gael yn y Dyffryn.

Yn ogystal â'r newyddion bod y fenter yn mynd i gynhyrchu swyddi, sy'n ddigwyddiad prin y dyddiau yma, ys gwn i a yw y newyddion am y weiran wib yn gyfle rhy dda i'w golli o safbwynt yr economi lleol, gyda'r gobaith y bydd yr ymwelwyr ychwanegol a fydd yn cael eu denu yma yn defnyddio cyflusterau'r ardal i ddiwallu eu hangenion, megis llety, siopau, bwytai a thafarndai - fel bod y cyfan o Ddyffryn Ogwen yn cael budd o'r atyniad cyffrous hwn.

Dywedir y bydd y weiran yn agor yn ddiweddarch eleni.

Dwy o Ysgolion y Dyffryn yn rhagori

Rhagorol yn wir Ysgol Abercaseg

'Arloesol' a 'blaengar'. Dyna rai o'r geiriau a ddefnyddiwyd gan arolygwyr Estyn yn ddiweddar i ddisgrifio Ysgol Abercaseg, gyda'r ysgol yn derbyn y farn 'Rhagorol' ar bob agwedd o'r arolygiad. Tipyn o gamp yn wir!

Ymhlith rhai o'r agweddau 'rhagorol' y mae'r safonau uchel iawn a'r cynnydd rhagorol y mae'r plant yn eu gyflawni yn yr ysgol, ansawdd ardderchog yr addysgu, arweinyddiaeth gref ac effeithiol iawn y pennaeth a'r llywodraethwyr a pharodrwydd yr ysgol i chwilio'n gyson am ffyrdd newydd ac arloesol o wella'r ddarpariaeth.

Dywed y Pennaeth, Sioned Hywel Thomas:

"Yn naturiol, mae'r adroddiad yn destun balchder mawr i ni, yn arbennig o ystyried ein bod wedi derbyn 'rhagorol' ym mhopeth. Mae canfyddiadau'r arolwg yn adlewyrchu y gwaith caled y mae holl staff yr ysgol yn ei gyflawni'n ddyddiol ac effaith gadarnhaol hynny ar safonau a lles y disgyblion."

Gwobr Pics

Llongyfarchiadau ymhellach i griw Ysgol Llanllechid am i'w ffilm "Moli'n Holi" gipio gwobr pics Wyl Ffilmiau rhyngwladol 2012.

(Mwy o fanylion yn y golofn ysgolion)

DARLITH GOFFA DAFYDD ORWIG 2012

"A oes Bywyd yn y Bydysawd?"

Traddodir y ddarlith gan
Yr Athro Deri Tomos

yn Llyfrgell Bethesda

Nos Lun 18fed Mehefin 2012
7.30 o'r gloch

Croeso Cynnes i Bawb
Mynediad am Ddim

Cwmnïau Dyffryn a Dyffryn Ogwen



Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts ☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn ☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts ☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn ☎ 600274
dewision@btinternet.com

Fiona Cadwaladr Owen ☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees ☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

Emlyn Evans ☎ 600501
emlynevans@live.co.uk

Neville Hughes ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan ☎ 602440
dewimorgan@fsmail.net

Dafydd Fôn Williams ☎ 601583
dafydd@gerlison.wanadoo.co.uk

Walter W Williams ☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

SWYDDOGION

Cadeirydd:
André Lomozik, Zakopane,
7 Rhos-y-Coed, Bethesda, Bangor,
Gwynedd LL57 3NW ☎ 602117

Trefnydd Hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872

Y Llais Drwy'r Post:
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184

Golygydd y Mis

Golygydd y mis hwn oedd Dewi Llewelyn Siôn. Dewi fydd wrth y llyw ym mis Mehefin hefyd:
Dewi Llewelyn Siôn, Pencraig,
42 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN
(01248 600274) dewision@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 30 Mai, os gwelwch yn dda. Plygu nos lau, 14 Mehefin yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Mis Mai

- 19 Bore Coffi Ysgol Sul Jerusalem. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 20 Cymanfa Ganu Annibynwyr Bangor a Bethesda. Capel Bethlehem Talybont am 5.30.
- 23 Plaid Lafur Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
- 26 Bore Coffi Sefydliad y Merched Carneddi. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 29 Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00
- 31 Merched y Wawr, Bethesda. Ymweliad â Moelyci.

Mis Mehefin

- 02 Bore Coffi Gŵyl Afon Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
- 02 Pesda Roc yn cyflwyno 'H' a'r Band. Neuadd Ogwen am 7.00
- 07 Sefydliad y Merched Carneddi. Arddangosfa Gosod Blodau. Cefnfaes am 7.00
- 09 Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen. Caeau Rygbi Bethesda.
- 09 Bryn Fôn a'r Band, Y Bandana + D3. Neuadd Ogwen am 8.00
- 13 Te Mefus yn Ysgoldy Maes y Groes, Talybont, am 7.00
- 16 Bore Coffi Capel Jerusalem. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
- 23 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
- 26 Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00
- 27 Te Mefus yn Ffestri Bethlehem, Talybont, am 7.00
- 28 Plaid Lafur Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
- 30 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

£18 Gwledydd Prydain
£27 Ewrop
£36 Gweddill y Byd



Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mis Mai

£30.00 (70)
Meirion Gwyn, Maes yr Hedydd, Tregarth

£20.00 (116)
Gwyn Roberts, 4 Rhos Buddug, Bethesda.

£10.00 (106)
Beryl Hughes, Meini Gleision, Tregarth

£5.00 (38)
Beryl Wynne Williams, Talgarnedd,
Bethesda.

Rhoddion i'r Llais

- £20.00** Er cof am ben-blwydd Derek Jones (18/05/12) oddi wrth y teulu.
- £20.00** Er cof annwyl am Robin Thomas, 14 Rhos Gordon, Bethesda, oddi wrth Nancy a'r teulu.
- £5.00** Don Hughes, Halifax.
- £10.00** Er cof annwyl iawn am Tom Davies, Castle House, a fu farw ar 2 Mai 1989 - oddi wrth Heulwen, Ceri a Hannah
- £10.00** Er cof am ben-blwydd Robert Werner Pritchard (26/05/12)
Cwsg nes gweld ein gilydd eto,
Cwsg a gwyn dy fydd.
Dad a'r teulu, 17 Rhos Elfed, Bethesda.



Llythyrau

Annwyl Olygydd,

Ysgrifennaf i ofyn tybed fedr darllenwyr y Llais fy helpu?

Rwyn chwilio am George Ashton a Tom Ashton a fu'n gweithio yn Chwarel y Penrhyn o gwmpas 1948. Mae Ann, merch George, yn ceisio dod o hyd iddo. Dydi hi ddim yn gwybod os ydio'n dal yn fyw!

Os oes gan unrhyw un ohonoch luniau o George a Tom mewn grwpiau o weithwyr a.y.y.b y medrwn wneud copi ohonynt, byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech gysylltu â mi. Dydi Ann ddim wedi gweld na chlywed dim am ei thad dros yr holl flynyddoedd.

Byddwn wrth fy modd pe gallech fy helpu i i'w helpu hi.

Diolch yn fawr,
Dave Eastwood,
2 Rhos Gordon, Bethesda.
01248 600624.

Daveeastwood22@yahoo.com

YR HOME GUARD 1943

Ymddangosodd llun o'r Home Guard yn rhifyn Mawrth o'r Llais, gan Mrs Gwen Davies. Gofynwyd a oedd rhywrai ohonoch yn gallu rhoi enwau i'r wyneb. Y mis diwethaf roedd Mr Maldwyn Hughes o Fangor wedi anfon rhestr go faith i fewn i'r Llais, ond roedd ychydig o fylchau o hyd. Yn ystod yr wythnosau diwethaf cysylltodd Mrs Mair Martin o Llanfairfechan, gyda rhai enwau ychwanegol. **Rhes Isaf:** trydydd o'r chwith, Harold Williams 17 Gernant, Braichmelyn. **Yr ail res:** 1af a'r y dde Tad Maldwyn a Brian Owen Adwy'r Nant. **Y drydedd rhes:** 9fed o'r chwith Now Williams 13 Caerberllan. **Rhes uchaf:** 5ed o'r chwith, Thomas Gray, 9 Gernant Braichmelyn.

Cafwyd gwybodaeth am y llun gan Selwyn Jones, Rachub, hefyd. Enw y 4ydd o'r chwith yn y rhes uchaf yw Norman Jones, sef tad Selwyn. Roedd yn byw yn 8/2 Stryd y Ffynnon, Gerlan ar y pryd.

Cafwyd dau enw arall, y tro hwn gan John Ffrancon Davies o Windsor: **Rhes Uchaf** Ail o'r dde : Robert (Bob) Price Jones, tad Eirlys Cefni Jones a'r Dr. Emrys Price Jones. **Rhes Isaf:** cyntaf o'r chwith : William Jones, tad Gareth Jones, Pencilan, Pen y Bryn, Bethesda.

Hysbysebwr yn Llais Ogwan

Cysylltwch â Neville Hughes

01248 600853

nev_hughes@btinternet.com

**Tony
Twomey**

**Peintiwr ac
Addurnwr
Trwyddedig**

**Gwneir unrhyw waith,
mewnol ac allanol.**

Ffôn Symudol:
07796 156829
Tŷ: 01248 602039



Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Capeli ac Eglwysi Dyffryn Ogwen – Rhan 2

Dyma barhau â'r rhestr o addoldai Dyffryn Ogwen, gan bwysleisio unwaith eto mor brin ac annigonol yw'r ffeithiau.

E

Eglwys Crist Glanogwen (Bethesda). Agorwyd ym 1856. Atgyweiriwyd ym 1905. Deil yn agored.

Eglwys Glan Rhyd Idwal (Nant Ffrancon). Ni wn ddyddiad ei hagor ond caewyd tua 1926. Roedd hefyd yn cael ei defnyddio fel ysgol. Bellach mae'n dŷ.

Eglwys Goffa Robertson (Coetmor). Codwyd ym 1911. Deil i gael ei defnyddio ar gyfer angladdau.

Eglwys Llandygái. Dechreuwyd yr achos tua'r 7fed ganrif. Deil yn agored.

Eglwys Llanllechid. Dechreuwyd yr achos tua'r 7fed ganrif. Helaethwyd ym 1845. Ym mis Medi, 2003, penderfynwyd y byddid yn gorfod cau'r Eglwys yn y dyfodol agos gan na ellid codi'r £250,000 oedd yn angenrheidiol i atgyweirio'r adeilad.

Eglwys Maes y Groes / St Cross. Agorwyd ym 1892. Deil yn agored.

Eglwys St Siôr (Rhiwlas). Caewyd a throwyd yn dŷ tua chanol y 1990au.

Eglwys St Ann (yr Eglwys gyntaf). Agorwyd 1813, caewyd 1865. Claddwyd dan domennydd Chwarel y Penrhyn.

Eglwys St Ann (Bryn Eglwys). Agorwyd ym 1865, caewyd tua 1997. Deil i sefyll.

Eglwys St Cedol (Pentir). Mae'n bosib fod yr eglwys bresennol wedi'i chodi'n gyfochrog fwy neu lai â'r hen eglwys wreiddiol. Mae addoldy bychan hefyd yn y fynwent newydd ar gyfer claddedigaethau.

Eglwys St Elizabeth, Glasinfryn. Ni wn hanes yr Eglwys hon ond bellach mae'n dŷ.

Eglwys St Mair (Mynydd Llandygái). Ni wn ddim o hanes yr eglwys fach hon ond gweler y cofnod arall isod.

Eglwys St Mair (Y Gelli). Agorwyd ym 1869. Deil yn agored.

Eglwys St Mair a St Ann (Mynydd Llandygái). Sefydlwyd o'r newydd yn 2000, i gymryd lle Eglwys St Ann (Bryn Eglwys).

Eglwys (Babyddol) Seintiau Pius X a Rhisiart Gwyn (Bethesda). Agorwyd ym 1965. Deil yn agored.

Eglwys Tanysgafell. Agorwyd ym 1847. Ni wn pryd y caewyd hi ond mae'n debygol iddi gael ei chwalu yn y 1960au.

Eglwys Unedig Bethesda (MC). Sefydlwyd ym 1994, gan ffurfio un eglwys o fewn muriau Capel Jerusalem ac ymgorffori Capeli'r Gerlan, y Carneddi a Peniel (Llanllechid) a oedd wedi cau (a chan gynnwys hefyd rai aelodau o Gapel Bethesda a Chapel Siloam). Bellach, mae aelodau **Capel Penygroes,** Tregarth, wedi ymuno â'r Eglwys Unedig.

G - H

Gerlan (MC). Agorwyd ym 1868/9. Caewyd ym 1993-4 a chwalwyd yr adeilad.

Giatws / Gatehouse (MC). Agorwyd tua 1800, helaethwyd ym 1843 (ac wedyn, efallai, ym 1864). Caewyd ym 1990.

Gorffwysfa (Sling) (W). Agorwyd ym 1880. Caewyd tua 1992 ac fe'i trowyd yn gartref i'r Prifardd Gwynfor ab Ifor a'r teulu.

Hermon (Mynydd Llandygái) (MC). Codwyd ym 1845, ailgodwyd ym 1856 a thrydyddgodwyd ym 1878. Caewyd ym 1988 ac fe ddmchwelwyd y Capel.

J - N

Jerusalem (Bethesda) (MC). Codwyd ym 1842, ailgodwyd ym 1874. Deil yn agored ac yn gartref i'r Eglwys Unedig leol.

Capel Nant-y-Benglog (A). Agorwyd ym 1853. Cynhelir rhai gwasanaethau yno o hyd.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch af ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

Bethesda

Llên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ 600431

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☐ ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☐ ☎ 601902

Priodas Aur

Llongyfarchiadau mawr i Alun ac Awenna Hughes, 35 Maes Coetmor ar ddathlu eu priodas aur ar 10 Mawrth. Cafwyd parti mawr yn y Clwb Criced a Bowlio gyda Hogia'r Bonc yn diddannu. Dymuna Alun ac Awenna ddiolch o galon i Sue a Gill, Bryn, Llinos, Erin a Siân am drefnu'r noson, i Karen am baratoi'r bwyd ac i Hogia'r Bonc am yr adloniant. Yn hytrach na derbyn anrhegion penderfynodd y ddau godi arian tuag at *Epilepsy Active* a chasglwyd £400. Diolch o galon i bawb am eu haelioni.

Priodas

Llongyfarchiadau mawr i Cheryl Ann Thomas a Steven Wyn Roberts ar achlysur eu priodas ar 31 Mawrth. Cynhaliwyd y briodas yn Eglwys Crist Glanogwen a'r dathlu yn Neuadd Caer Rhun ger Rowen. Mae Cheryl yn ferch i Keith a Janice Thomas Tŷ Isaf, Bethesda a Steven yn fab i Gwyndaf a'r ddiweddar Angela o'r Gerlan. Bydd y ddau yn ymgartrefu yng Ngharneddi.

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Bethan ac Euryl Rees, Aberystwyth, ar enedigaeth eu mab, Llewelyn Hedd a anwyd ar 5 Ebrill. Mae Llewelyn yn wŷr i Idris a Janice Lewis, Ffordd Bangor.

Newyddion da

Ychydig wythnosau yn ôl collodd Kevin Evans Erw Las ei waled ar y stryd fawr ym Methesda gyda chryn swm o arian a chardiau banc ynddi. Ni feddyliodd y buasai'n gweld y waled byth eto. Rhyfeddodd yn arw pan, tua pythefnos wedyn, y cafodd barsel arbennig gan y postman. I'w fawr syndod beth oedd ynddo ond ei waled ynghyd â'r arian a'r cardiau banc. Roedd rhywun wedi bod yn onest iawn ond yn fwy na hynny wedi aros yn ddiennw. Os mai un o ddarllenwyr y Llais ydi'r person arbennig yma dymuna Kevin ddiolch o galon. Braf iawn yw adrodd stori fel hon.

Diolch

Dymuna Rosalie Williams, 2 Dolgoch, ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr holl garedigrwydd a'r dymuniadau da a dderbyniwyd

ganddi yn yr ysbyty yn ddiweddar yn derbyn llawdriniaeth. Hefyd, dymuna ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am y gofal a'r caredigrwydd a dderbyniodd ar ôl dychwelyd adref.

Diolch

Dymuna Mary, Erw Las, ddiolch i bawb am yr anrhegion, y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ei phen-blwydd ddiweddedd Ebrill. Diolch o galon i Elen Haf am drefnu noson allan i dri theulu a ffrindiau. Cafwyd noson arbennig iawn.

Taid a Nain

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Arfon Evans, Erw Las, ar yr achlysur hapus o ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab, Bleddyn Llŷr, i Rhodri a Rhian ar 11 Ebrill.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Phyllis Evans, Erw Las a Mr a Mrs Joe Evans, Glanffrydlas ar ddod yn hen neiniau a hen daid.

Pen-blwyddi

Dathlwyd rhai pen-blwyddi arbennig yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i chi Mrs Heulwen Roberts, Ffordd Bangor ac i chwithau hefyd, Mrs Megan Jones, (Garneddwen gynt) yn 90 oed ar 28 Ebrill.

Diolch

Dymuna Heulwen Roberts, Ystradawel. Ffordd Bangor, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig ar 12 Ebrill. Diolch hefyd am y galwadau ffôn a'r cardiau yn dilyn ei salwch ym mis Chwefror. Diolch yn arbennig iawn i John ac Irene drws nesaf.

Taid a Nain

Llongyfarchiadau i Wendy a Geraint Jones, Penybryn, ar ddod yn nain a thaid i Bobby, mab a anwyd i'w merch Sara a'i phartner, Neil.

Ysbyty

Cofion cynnes a gwellhad buan i'r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar:
Mr P Parry, Erw Las;
Mrs Mary Jones, Rhos Glanogwen;
Mrs Jean Morris, Adwy'r Nant.

Cydymdeimlo

Bu sawl teulu mewn profedigaeth yn ddiweddar ac anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd:

Mr a Mrs Selwyn Jones a'r teulu, Rhos-y-coed, ar gollu mam-yng-nghyfraith, nain a hen nain, sef y ddiweddar Mrs Megan Price, Talwrn, Môn ar 11 Ebrill.

Mr a Mrs Emllyn Evans a'r teulu, Rhos-y-nant; colli perthynas yn sydyn yn Llundain.

Mrs Doreen Jones a'r teulu, Stryd Fawr Bethesda; colli brawd, sef y diweddar Mr Alun Griffith, Ynys Môn, ar 17 Ebrill.

Mr a Mrs Griff Charles Morris a'r teulu, Rhos-y-Nant; colli merch ar 26 Ebrill yn y Wyddgrug, sef y ddiweddar Mrs Menna Charles Armstrong yn 43 oed, chwaer annwyl i Enid, Huw a Ceri.

Marwolaeth

Ar 7 Ebrill yn frawychus o sydyn yn ei chartref yn 14 Abercaseg bu farw Debra Ann Burnell yn 43 oed, merch annwyl i Mrs Megan a'r diweddar Mr Les Burnell, Bron Bethel, Rachub; chwaer Alison, Amanda a Kimberley; chwaer yng nghyfraith Merfyn a modryb i Martin a Darren a wyres hoffus i Mrs Bet Highes. Cynhaliwyd ei hangladd fore dydd Sadwrn, 14 Ebrill, a daeth tyrfaf ynghyd yn Eglwys Crist Glanogwen ac amlosgfa Bangor, gyda'r ficer y Barchedig Nia C. Williams yn

gwasanaethu a Mrs Christine Edwards wrth yr organ. Claddwyd ei llwch ym mynwent Coetmor ddydd Llun, 16 Ebrill.

Cydymdeimlwn â chi fel teulu yn eich profedigaeth o golli Debbie.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Diwrnod agored yng nghartref Joe ac Eira, 29 Ffordd Ffrydlas, dydd Llun 18 Mehefin o 10.00 y bore tan 10.00 yr hwyr. Pris £1.00.

Gorffwysfan

Ar ddydd Mawrth, 1 Mai, aeth 38 o aelodau a chyfeillion ar wibdaith i Aberystwyth. Cafwyd paned a sgwrs ar y ffordd yng Nghanolfan Coed y Brenin, Dolgellau, ac yna ymlaen â ni i Aberystwyth. Cyn ei throï hi am adref trafodwyd un neu ddau o faterion:

Yn Droednoeth dros Dlodï



Rhwng y 16 a 20 Ebrill bûm i'n cerdded yn droednoeth ar gyfer apêl yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru, Apêl Viva Guatemala.

Penderfynais wneud hyn wedi i Anna Jên o Gymorth Cristnogol fod yn ein Capel yn siarad am blant yn Guatemala oedd yn llwgu. Teimlais yn drist iawn fod plant yn llwgu yn Guatemala a ni yng Nghymru gyda chymaint. Teimlais fod rhaid gwneud rhywbeth nid yn unig i hel arian ond hefyd i godi ymwybyddiaeth o'r apêl. Roedd mynd yn droednoeth am bum diwrnod yn golygu fy mod i'n mynd a'r ci am dro, mynd i'r brifysgol, mynd i'r Seiat a'r Undeb Cristnogol ym Mangor yn hollol droednoeth yn ogystal â bod yn droednoeth yn y tŷ. Roedd sawl un yn edrych arnaf yn od ac erbyn diwedd y pum diwrnod roedd fy nhraed yn brifo. Ond er hyn roedd yn brofiad gwych, cefais lawer o fendith o'r profiad. Cefais lawer iawn o gefnogaeth gan fy nheulu, ffrindiau, y gymuned â'r Capel. Credaf ei bod yn bwysig ein bod ni fel Cristnogion yn estyn llaw allan a helpu pobl sydd angen cymorth. Hoffwn ddiolch i bawb oedd yn gymorth dros y pum diwrnod a phawb a gyfrannodd at yr apêl.

Sioned Angharad Williams

O hyn ymlaen mae pawb sydd am ddod ar wibdaith i dalu £1.00 wrth roi ei enw ar y rhestr yng Ngorffwysfan. Ni fydd yr arian yn cael ei ddychwelyd os methant â dod ar y trip.

Bydd y man cychwyn yn wahanol ar gyfer pob gwibdaith.

Trefnwyd y Bore Coffi a chasglu addewidion ar y bws, gan gael ymateb da. Diolch yn fawr i bawb.

Gwibdaith ddirgel: Gofynnodd yr Ysgrifennydd a fyddai'r aelodau'n barod i dalu tâl mynediad pe bai galw ar ambell ymweliad. Cytunodd pawb.

Cafwyd gair o ddiolch am y trefniadau gan y cadeirydd, Mr Eric Jones.

Cofiwch ddyddiad y Wibdaith Ddirgel, sef dydd Mawrth 26 Mehefin 2012. Bydd y rhestr i fyny yng Ngorffwysfan o 1 Mehefin.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA yng Nghapel Jerusalem Estynnir croeso cynnes i bawb i oedfaon Sul

Bore Gwasanaeth ac Ysgol Sul am 10.00
Hwyr Gwasanaeth am 5.00

EGLWYS UNEDIG BETHESDA GWASANAETHAU'R SUL

Mis Mai
20 Cymanfa
27 Parch. Cynwil Williams

Mis Mehefin
3 Parch. Dr. Elwyn Richards
10 Y Gweinidog
17 Mr. T. Alun Williams.

Yr Eglwys Unedig

Gweinidog: Y Parchedig Geraint Hughes

Mae'r Gwanwyn ar gerdded ac er mai araf ei ddyfodiad eleni y mae'n sicr o ddilyn y drefn - gwanwyn, haf, hydref a gaeaf ac yn union fel y try rhod y tymhorau, felly hefyd mewn bywyd, geni a marw ond bod y drefn honno yn ymddangos yn hynod anheg i ni weithiau. Ddechrau'r mis, roeddem yn clywed am farwolaeth Albert Williams, priod Muriel Williams, Glanffrydilas. Roedd wedi cyrraedd oedran teg ac roedd Muriel ac yntau newydd ddathlu chwe deg mlynedd o fywyd priodasol. Cydymdeimlwn gyda'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Sefydliad y Merched, Carneddi

Estynodd Gwyneth Morris groeso cynnes i bawb ar noson braf gan groesawu dwy aelod yn ôl i'r sefydliad ar ôl cael llawdriniaeth. Roedd Ettie Evans wedi cael clun newydd a Nancy Thomas wedi cael pen-glin newydd, a'r ddwy yn edrych yn dda iawn. Braf oedd gweld Heddwen Jones yn ein mysg eto a hithau heb fod yn rhy dda ond yn teimlo'n well erbyn hyn. Llongyfarchwyd Ettie Evans a Phyllis Evans ar ddod yn hen neiniau; wŷr y ddwy, sef Rhodri Evans a'i wraig sydd wedi cael bachgen bach. Llongyfarchiadau mawr. Anfonwn ein cofion at Glenys Wyn Jones gan edrych ymlaen at ei gweld yn y sefydliad yn fuan. Ein cofion hefyd at Margaret Williams sydd wedi cael damwain go hegar, ond deallwn ei bod yn gwella yn ara deg.

Dechreuwyd y noson trwy drafod pa gynigion i'w hanfon i'r cyfarfod blynyddol yn yr Albert Hall yn Llundain. Un cynnig oedd gerbron, sef pwyso ar y Llywodraeth i benodi mwy o fydwragedd. Pleidleisiwyd yn unfrydol dros anfon y cais. Sefydliad Glasinfryn fydd yn mynd â'r bleidlais i'r cyfarfod blynyddol ar ein rhan.

Syrpreis oedd y gŵr gwadd am weddill y noson. Cawsom ein diddannu gan gonsuriwr o Fangor, Mr Howard Hughes, a'i wraig. Yr oedd pawb wedi eu syfrdanu gan ei driciau ac fe lwyddodd i dwyllo pawb. Aeth amryw o'r aelodau adref yn dal i bendronni sut yr oedd wedi gwneud ei wyrthiau! Cawsom noson dda iawn, a rhai wedi cymryd rhan yn y triciau. Noson hwyliog iawn gyda Howard a'i wraig. Diolchwyd iddo gan Jean Hughes a diolchwyd i'r merched am y baned. Enillwyd y wobwr Iwcus gan Eiwyn Smith, yn rhodd gan Phyllis Evans.

Merched y Wawr Cangen Bethesda

Daethom ynghyd fel aelodau o'r gangen i Ganolfan Cefnfaes nos Iau, 26 Ebrill, ond er ein bod yn dathlu penblwydd ein Llywydd, Margaret Jones, a hithau wedi dod â chacennau hyfryd i ni eu cael gyda'n paned, nid oedd hwyl ar neb ohonom i fynd ati i drefnu rhaglen at y flwyddyn nesaf a cheisio codi swyddogion oherwydd roeddem wedi clywed am farwolaeth Menna, merch ein hysgrifennydd, y pnawn hwnnw. Roedd Menna yn wraig ifanc fywiog a phoblogaidd dros ben. Roedd wedi cyfrannu i'r ardal tra'n byw ym Methesda ac fe gariodd ymlaen gyda'r un brwdfrydedd yn ei hardal newydd, sef y Wyddgrug, lle bu'n athrawes am rai blynyddoedd. Cydymdeimlwn yn fawr gyda Phil ei phriod a'u phlant Geraint a Maihri, ei rhieni, Griff ac Eleanor a gyda'i chworiydd Enid a Ceri a'i brawd Huw a'u teuluoedd hwythau.

Cydymdeimlwyd hefyd gyda Muriel Williams, Glanffrydilas ar golli ei phriod Albert ar ôl cyfnod maith o salwch. Roedd y ddau wedi bod yn briod am chwe deg o flynyddoedd. Cydymdeimlwn a'r plant a'r wyrion a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Ar nodyn mwy llawen, llongyfarchwyd Jean Northam a'i phriod Godfrey ar ddod yn nain a thaid i efeilliaid bach sef Alys a Betsan. Plant ydynt i'w mab a'i briod ac mae'n siwr fod y brawd mawr yn falch o'u croesawu.

Fe fyddwn yn ceisio trefnu cyfarfod ychwanegol yn ystod y mis i gael trefn ar bethau. Bydd y cyfarfod swyddogol nesaf ar 30 Mai yng Nghanolfan Cefnfaes pryd y cawn beth o hanes Canolfan Moelyci.

Yn 43 oed, bu farw Menna Charles Armstrong. Roedd Menna yn ferch i Griff ac Eleanor Morris a chofiw'n am ei chyfraniad hi a'i chworiydd, Enid a Ceri a'u brawd Huw i'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau tra'n blant a bobl ifanc. Roedd yn briod â Phil ac yn fam i Geraint a Mairhi. Roedd ei gwasanaeth coffa yn dangos y parch mawr tuag ati yma ym Methesda ac yn y Wyddgrug lle roedd yn byw a gweithio fel athrawes.

Cydymdeimlwn yn fawr gyda'r teulu i gyd a dymunwn yn dda i Enid a Dafydd wrth iddynt deithio i Malawi i weld Beca. Cofion at Beca ac edrychwn ymlaen am gael clywed yr hanes pan ddaw yn ôl.

Deallwn fod nifer o benblwyddi yr '0' fawr wedi bod y mis hwn ond gwell peidio enwi rhag datgelu unrhyw gyfrinachau! Digon dweud ein bod yn gofidio fod Glenys Lloyd Jones yn yr ysbyty dros ei phenblwydd hi ond da deall ei bod lawer yn well erbyn hyn.

Llongyfarchiadau i Joe ac Ettie Evans a Doris Shaw ar ddod yn hen neiniau a hen daid.

Trefnwyd y Cyfarfod Gweddi gan Gwenno Evans a chroesawyd Nia Williams, y Ficer atom. Blin gennym ei cholli o'r ardal ond dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd yn y Gadeirlan. Roedd y Parch. John Owen, Jean Ogwen Jones, Megan Wyn Phillips ac Elina Owen yn cymryd rhan hefyd.

Bore Agored

Bydd Cylch Meithrin Cefnfaes yn cynnal bore agored ar gyfer cofrestru plant a fydd yn dechrau yn y cylch ym mis Medi.

Dewch draw am baned a sgwrs efo Kerry, Nerys ac aelodau staff y cylch ar fore Mercher, 20 Mehefin rhwng 9.30 a 11.00 y bore.

Byddwn yn edrych ymlaen at eich croesawu

07515860901

CYLCH MEITHRIN CEFNAES

Mae Cylch Meithrin Cefnfaes yn awyddus i gynnig lleoliad gwaith i unrhyw un sy'n dilyn cwrs yn y Blynyddoedd Cynnar/Cyfnod Sylfaen/NVQ lefel 2/3 neu Ddiploma) ac am gael profiad gwaith gyda phlant oed cyn-ysgol.

Os oes gennych ddi-ddordeb cysylltwch â Kerry, yr arweinydd ar 07515860901 neu 602593

Capel Bethania Oedfaon

3 Mehefin:
Mr Reuben Roberts
17 Mehefin:
Y Parchedig Gwynfor Williams

Oedfaon am 2.00 o'r gloch cyntaf a'r trydydd o'r mis.

Croeso Cynnes i Bawb

Cafwyd trip dymunol i ymweld â Llaeth y Llan yn Llanefydd ar noson braf o haf a chafwyd pryd da o fwyd yno. Diolch i Minnie a Heulwen am drefnu a diolch i'r dynion a fu'n ddigon dewr i ymuno gyda ni.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

'LLENWI'R CWPAN'

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a
hanner dydd

Priodas Aur



Llongyfarchiadau calonnog i Alan ac Alwenna Puw, Arllechwedd, Cefn y Bryn, ar ddathlu hanner can mlynedd o fywyd priodasol ar 21 Ebrill. Dymuna Alan ac Alwenna ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd – yn gardiau, anrhegion a chyfarchion. Diolch yn fawr iawn.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Raymond Tugwell,
9 Ffordd Llanllechid
☎ 601077

Taith gerdded flynyddol

Bydd y daith eleni o Lyn Ogwen i lawr i Fethesda, gyda phicnic ar y ffordd. Bydd yr arian a godir eleni yn cael ei rannu rhwng Cronfa Canser a Lewcemia mewn Plant (Ysbyty Gwynedd), HYAS (Hawliau Plentyn) a chyfraniad at daith Mari Parry Owen i Hondwras i wneud gwaith gwirfoddol. Cysylltwch gyda Raymond am fwy o fanylion.

Penblwydd Hapus Arbennig

i Mrs Gladys Brotherton, Llwynbleddyn, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 70 oed ar 19 Mai.

Y Ganolfan

Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i Gylch Ti a Fi am gynnal noson Bingo i godi arian at y Ganolfan yn ystod y Pasg. Codwyd £180 a chyda haelion pobl yr ardal, Becws Cae'r Groes a Mr Hunt gwelwyd ffwyth ymdrech yr ychydig. Da oedd gweld y trigolion yn mwynhau noson lwyddiannus.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cofion at nifer yn yr ardal a wynebodd brofedigaeth. Tipyn o sioc i'r ardal oedd clywed am farwolaeth Debbie Burnell yn 43 mlwydd oed. Anfonwn ein cydymdeimlad at Megan ei mam yn Bron Bethel a'r teulu oll yn eu colled ddychrynlyd.

Hefyd cydymdeimlwn â Mrs Helen Williams, Llwyn Bleddyn, a'r Parch Dafydd Coetmor Williams

wedi profedigaeth o golli cefnder i Mrs Williams, y Parchedig Elwyn Jones, Tywyn, Sir Feirionydd.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr a Mrs Eirwyn Pritchard, Bron Arfon ar farwolaeth chwaer i Eirwyn a oedd yn byw yn Winsford.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Ceri, Tŷ Mawr, Cae'r Groes; hithau wedi collu chwaer, Menna, yn 43 mlwydd oed a oedd wedi ymgartrefu yn y Wyddgrug.

Cartref Newydd

Pob dymuniad da i Siwan Bryn yn ei chartref newydd yn Lôn Groes.

Genedigaethau

Ar 20 Ebril ganwyd gefeiliaid i Geraint a Jade Northam yn chworiydd i Idris Tomos mewn ysbyty ym Mryste. Roedd Alys Mari a Betsan Haf yn pwyso 6 phwys yr un. Llongyfarchiadau i nain a taid, Jean a Godfrey Northam, Llwyn Bedw, a oedd yn gobeithio teithio i weld y teulu ddechrau mis Mai.

Llongyfarchiadau hefyd i Siân a Neil, Bryn, Llanllechid, ar enediageith Seren Haf. Dymuniadau gorau i'r ddau ac i Nain a Taid, sef Stan a June yn Sgwâr Rachub.

Ymdeol

Wedi deuddeg nlynedd o fod wrth y llyw yng Nghlwb Ieuencid Llanllechid mae Derfel Roberts o Gaernarfon wedi penderfynu rhoi'r ffidl yn y to ar ddiwedd y tymor yma. Hoffai ddiolch am gefnodaeth y bobl ifanc ar hyd y blynyddoedd. Diolch hefyd i tithau Derfel am dy wasanaeth. Y mae dyled yr ardal i ti yn fawr.

Gwellhad Buan

Anfonwn ein cofion at nifer o drigolion sydd wedi derbyn triniaethau mewn ysbytai yn ddiweddar. Yn eu plith mae Glenna Bevan, Red Lion; Ceri Davies, Llanllechid, Mrs Margaret Parry, Bron Bethel ac Olwen Lewis, Stryd Bryn Owen. Dymunwn wellhad buan iddynt oll.

CAPEL CARMEL

Cyflwynodd parti canu o aelodau Clwb Dwylo Pysur eitemau cerddorol yng Nghymanfa Ganu Sul y Blodau ym Methlehem, Talybont. Canwyd tair emyn ar y noson.

Wedi Gŵyl y Pasg cerddodd aelodau'r Clwb o Rachub dros bont Coetmor ar hyd Ffordd Dinas ac i Dyddyn Dicwm. Cawsant groeso mawr gan Mrs Eirwen Williams a chafwyd cyfle i weld llechi mawr cerfiedig oedd o amgylch yr aelwyd yn y gegin. Roedd cael hanes y llechi gan Mrs Williams yn ddiddorol iawn. Cyn cychwyn ar y daith yn ôl mwynhawyd diod a bisgedi, diolch i haelioni Tyddyn Dicwm. Diolch i'r teulu ac i bawb a wnaeth y daith ar brynhawn difyr tu hwnt



Y criw yn cychwyn yn dalog



Y bobl ifanc y gwneud rhwbiadau o'r llechi yn Nhyddyn Dicwm.

Cylch Ti a Fi

Bob bore Gwener
10 – 11.30yb
Canolfan Rachub a Llanllechid
Dewch am banad, sgwrs, chwarae
a chàn!
Ffôn: 602874

Capel Bethel Gwasanaethau

Mis Mai
20fed Mr Jack Roberts
27ain Y Sulgwyn

Mis Mehefin
3ydd Nerys Griffiths
10fed Y Gweinidog
17eg Y P arch Christopher Preis
24ain Mr Jack Roberts

**Oedfaon am 2.00 o'r gloch.
Croeso cynnes i bawb.**

CAPEL CARMEL Gwasanaethau

Mis Mai
20fed: Sul y Gymanfa
10.30 Pendref, Bangor
5.30 Bethlehem, Talybont

27ain: Uno yn Jerusalem
10.00 a 5.00

Mis Mehefin

3ydd:
Y Gweinidog
2.00 a 5.00

10fed:
Y Parch Ddr D.W. William
2.00

17eg:
Y Gweinidog am 2.00 a 5.00

**Yr Ysgol Sul am 10.30 y.b.
Dwylo Pysur Nos Wener 6.30
Croeso Cynnes**

Hysbysebwr yn y
Llais: Cysylltwch â:
Neville Hughes
600853

JOHN ROBERTS



Paentiwr

Papurwr

Teilsiw

Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995



Posh Paws Tacluso Cŵn

Busnes lleol

Prynhawniau neu Nosweithiau
4.00 - 10.00

Dydd Sul 8.00 a.m - 4.00 p.m.
Gwasanaeth casglu a danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
01248 671382 neu 07935324193
Ebst: juliaposhpaws@btinternet.com

LONDIS BETHESDA

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

Blodau Racca

PENISARWAUN

Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau

- gan hogan o Rachub

Ffôn: 01286 870605

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Ymgymwrwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

CAFFI SEREN

BETHESDA

Ffon: 01248 600661

Oriau agor

Llun i Gwener: 8.00 tan 4.00

Dydd Sadwrn: 8.00 tan 1.00

BWYD CARTREF

Pryd arbennig (Special) bob dydd

Cinio rhost bob dydd Gwener

Bwyd i'w fwyta allan

Croeso cynnes gan Sue a'r staff

STEPHEN
JONES



TREFNYDD
ANGLADDAU

Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd

Gweithdy Pen-y-bryn

Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

AUR
CLOGAU

Gostyngiad o
20%

Os nad mewn sêl eisoes



Siswrn Arian
*Trin Gwallt Merched,
dynion a Phlant*

Vivien, Amanda, Jenny a Nicola

GEMWAITH BO-WEN

GWASANAETH TYLLU CLUSTIAU

☎601888

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

Llanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Cartrefu yn y Gerlan

Croeso i Heledd Selwyn a'i merch Dwynwen sydd wedi dod i fyw i 2 Pen y Clwt, Gerlan ers dechrau mis Mawrth. Gobeithio eich bod yn setlo ac y byddwch yn hapus iawn yn ein plith yn y Gerlan

Gadael y Gerlan

Rydym wedi ffarwelio efo Lynne Pierce, gynt o Stryd Goronwy, sydd wedi symud i fyw i Dalybont. Bydd yn chwth peidio ei gweld yn cerdded o gwmpas y pentref. Ein dymuniadau gorau i ti yn dy gartref newydd, Lynne.

Priodas a chartref newydd

Estynnwn groeso i Gareth a Davina Owen a'u merch, Cara, i'w cartref newydd yn Stryd y Ffynnon. Dod adref yw hyn i Gareth mewn gwirionedd, gan mai hogyn o'r stryd ydyw. Llongyfarchiadau mawr i Gareth a Davina, hefyd, ar achlysur eu priodas ddechrau Mai. Ein dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Ffarwelio

Trist yw gorfod ffarwelio efo Carrie Rimes, Gwernydd, sydd wedi symud i fyw i Ffrainc. Rydym yn dymuno'r gorau iddi yn ei menter newydd a'i chartref newydd. Bydd Carrie yn cychwyn ar fenter cynhyrchu caws yn ei gwlad newydd. Bydd colled ar ei hôl yn y Gerlan, gan ei bod wedi bod yn weithgar iawn gyda'r Caban.

Brysia wella

Rydym yn estyn ein dymuniadau gorau i Robin Hughes, Freithwen Isaf, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Walton. Rydym i gyd yn cofio atat, Robin, ac yn dymuno gwellad llwyr a buan iti.

Llwyddiant etholiadol

Llongyfarchiadau mawr i Dyfrig Jones, Stryd Goronwy, ar ei llwyddiant yn cael ei ail-ethol fel cynrychiolydd Ward Gerlan a Rachub ar Gyngor Gwynedd. Rydym yn dymuno'n dda i Dyfrig a'r teulu, hefyd, gan eu bod yn symud o'r pentref i fyw. Fodd bynnag, nid yw Dyfrig yn gadael ei ward, ond, yn hytrach, yn symud i'w chanol, gan y bydd ei gartref newydd yn y Carneddi. Pob hwyl i ti yn dy ddyletswyddau, Dyfrig, ac i ti a'r teulu yn eich cartref newydd!

Profedigaeth

Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys gyda Dyfrig, Mai, a'r plant, Martha a Iago, Stryd y Ffynnon, yn eu profedigaeth ddiweddar o golli nain Dyfrig, y ddiweddar Mrs Sarah Jones, oedd yn trigo yn Ynys Môn.

Symud

Croeso i Lisa, a'i mab, Llion, i'w cartref newydd yn Stryd Goronwy. Merch o Stryd Goronwy yw Lisa, a braf yw gweld teulu ifanc yn

dychwelyd i'r ardal. Ein dymuniadau gorau ichi eich dau

Ar y teledu

Ddechrau'r mis bu Linda Brown, Gwernydd, a'i merch, Caren, Ffordd Gerlan, yn cymryd rhan mewn rhaglen deledu newydd o'r enw Dim Byd Mwy, sef rhaglen ddogfen ddychanol

Bu Lisa Brown, merch arall y teulu, hefyd ar y teledu, sef fel gwestai ar raglen Tudur Owen. Yn ogystal, bu Lisa, a Martin ei gŵr, yn cymryd rhan yn Pesda Roc Bach yn ddiweddar. Da iawn pob un ohonoch!

Profedigaeth

Rydym yn cydymdeimlo gyda Rhiannon a Martin Sturrs a'r teulu, a Nerys Costello a'r teulu, o Stryd y Ffynnon, yn eu profedigaeth o golli hen fodryb, sef y ddiweddar Mrs Ellen Mary Owen, gynt o Sling, Tregarth

Arholiadau

Mae hi'n amser arholiadau unwaith eto, ac rydym yn dymuno'r gorau i bob un o'r ardal sy'n sefyll unrhyw fath o arholiad yn yr wythnosau nesaf. Pob lwc i chi i gyd!

CYLCH MEITHRIN GERLAN

Llun i Gwener
9:00 - 12:30
2-4 oed

Cysylltwch â ni ar:
07768405874

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Cleifion

Anfonwn ein cofion anwylaf at Jill Bullen, Ernie a Nerys Coleman, Ieuan a Ceridwen Evans, Jim a Beryl Hughes, Olwen Lytham, Gwen Morsley, Cassie Tindall, Betty Williams, Dorothy Proudley-Williams, Jean Willis a phawb arall sydd yn wael. Gwellhad buan i chi i gyd.

Bingo

Cynhaliwyd Bingo yn Neuadd Talgai ar nos Fawrth, 17 Ebrill, gyda'r elw'n mynd tuag at y Neuadd. Yr oedd Pauline a'r merched wedi paratoi parti bach ar gyfer Mary a Beryl, gan y byddai'r ddwy'n dathlu eu pen-blwyddi y dydd Mercher canlynol. Diolch i bawb oedd yn bresennol; mae'n drueni fod y nifer yn prinhaus.

Cartref newydd

Croeso cynnes i Mrs Sue Jones sydd wedi dod i fyw i Lilac Cottage, Pentre Llandygái, cartref y ddiweddar Mrs Peggy Charlton, sef mam Sue. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith ac na fyddwch yn colli John Ellis a'r holl anifeiliaid yn ormodol.

Pen-blwydd

Dathlodd Mrs Gwen Morsley, Tŷ'r Ysgol ei phen-blwydd ar ddydd Sul 6 Mai. Rydym i gyd yn y pentref yn gobeithio ei bod wedi cael diwrnod hapus gyda'r teulu a'i ffrindiau – llongyfarchiadau a dymuniadau da Gwen.

Cynllun Gerddi Cenedlaethol

Gerddi agored er budd elusennau

Diwrnod Agored yn Llys y Gwynt,

Ffordd Pentir, Llandygái.

Dydd Sul, 20 Mai

11.00 – 4.00

Mynediad £3.00. Am ddim i blant.

Bydd lluniaeth ar gael a digon o blanhigion iach ar werth.

Eglwys Sant Tegai

Marwolaeth

Ar 16 Ebrill yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Glenys Lloyd, 18 Trem y Garnedd, Maesgeirchen, yn 74 mlwydd oed. Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys Sant Tegai ar ddydd llun, 23 Ebrill, dan ofal y Parchedig John Matthews ac fe gladdwyd ei gweddillion ym mynwent yr eglwys. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Diolch

Diolch o galon i Pauline am rafflio dol a gwneud elw o £97 i Eglwys Sant Tegai. Mae Pauline a Raymond yn gymorth mawr i'r eglwys, i'r neuadd ac i driogolion y pentref. Bydd yr eglwys yn agored bob dydd Mercher a dydd Sadwrn o hyn i ddiwedd mis Hydref. Diolch i'r pentrefwyr caredig ac aelodau eglwysig am wirfoddoli i agor a chau'r eglwys ar y diwrnodau hyn. Diolch i Ian a Daphne am baratoi'r amserlen dros y saith mis ac am fod ar ddyletswydd fel y bydd amser yn ei ganiatau. Diolch arbennig i Mr Peter Bullen am fod yn gyfrifol ac am fod yn gymaint o gaffaeliad i'r pentref yn absenoldeb Ian a Daphne.

Sul y Pasg

Daeth cynulleidfâ dda i'r Cymun Bendigaid ddydd Sul y Pasg gyda'r Parchedig John Matthews yn gweinyddu a Geraint Gill ar yr organ. Diolch i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth, i Hazel a Nerys a'r merched am addurno'r eglwys mor hardd ac i'r aelodau a gyfrannodd tuag at y blodau.

Cyfarfod blynyddol y festri

Cynhaliwyd Festri Pasg ar nos Fawrth 17 Ebrill. Diolchodd y Ficer i'r wardeiniaid, i'r trysorydd, i'r ysgrifenyddes, i Geraint ac i bawb arall a fu'n gymaint o gymorth iddo yn ystod y flwyddyn. Ailetholwyd Edmond ac Ann yn wardeiniaid, Daphne yn drysorydd a Nerys yn

ysgrifenyddes – a llawer peth arall. Diolch i John a Sue Mattews am eu gwaith caled; maent y cydweithio'n dda iawn.

Pen-blwydd

Dymuniadau gorau i Gwenan, fydd yn dathlu ei phen-blwydd ar 15 Mai. Gobeithio y cei ddiwrnod i'w gofio ym mhle bynnag y byddi di, boed gartref neu ym Manceinion. Hwyl fawr iti Gwenan yn dy arholiadau yr haf yma.

Gwasanaeth Undebol

Roeddem yn falch o gael croesawu aelodau o Eglwys Maes y Groes a'r Gelli atom ar ddydd Sul 29 Mai. Diolch i'r Parchedig John Matthews am gymryd y gwasanaeth ac i Mr Geraint Gill yr organydd, Roedd nifer dda wedi dod i'r gwasanaeth er gwaethaf y gwynt a'r glaw, gydag aelodau o'r tair eglwys yn cymryd rhan. Nid oedd y neuadd ar gael y bore hwnnw ond llwyddodd Nerys a Hafina i wneud paned yn festri'r eglwys ar ddiwedd y gwasanaeth. Diolch yn fawr i chi i gyd.

Gwaeledd

Mae ein gweddïau y mis hwn yn mynd at ein ffrindiau sy'n methu bod gyda ni oherwydd gwaeledd, ond fe wyddom fod John Matthews yn ymweld â hwy yn fisol. Brysiwch wella Jane Couch, Beryl Edwards, Harry Gross ac Olwen Lytham – byddwn yn cael ei hanes gan y teulu o dro i dro.

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Llwyddiant Llinos ym Marathon Llundain

Llongyfarchiadau i Llinos Greenhalgh, 61 Bro Emrys ar ei llwyddiant yn rhedeg 26 milltir ym Marathon Llundain. Gwnaed elw o £2,000 at Ysbyty Alder Hey yn Lerpwl lle derbyniodd ei mab Tomos Glyn driniaeth pan nad oedd ond ychydig ddiwrnodau oed. Hoffai Llinos ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u rhoddion hael.

Ysbyty

Anfonwn ein cofion at Mrs Myfanwy Williams, 4 Cae Gwigin, sydd wedi cael pen-glin newydd yn ddiweddar. Brysiwch wella Myfanwy.

Te Mefus

Cynhelir ein Te Mefus Blynyddol yn Festri Capel **Bethlehem, Talybont** ar nos Fercher, 27 Mehefin am 7 o'r gloch. Croeso i bawb.

Capel Bethlehem, Talybont

Mai 20: Cymanfa Ganu'r Anni-bynwyr ym Methlehem am 5.30;
Mai 27: Gweinidog;
Mehefin 3: Parchg. Ddr. Elwyn Richards, Caernarfon;
Mehefin 10: Gweinidog;
Mehefin 17: Parchg. John Lewis Jones, Llandudno;
Mehefin 24: Parchg. Harri Owain Jones, Llanfairpwll.

**Oedfaon am 2.00 .
Croeso cynnes i bawb.**

Eglwys Maes y Groes

Cynhelir Te Mefus yn yr Ysgoldy ar y 13fed o Fehefin am 7 o'r gloch.

Cynhaliwyd y gwasanaeth nos Iau Cablyd yn yr Eglwys, ac ar ddydd Gwener y Groglith gorymdeithiodd aelodau o'r tair Eglwys o Landygái trwy bentref Talybont. Cariwyd y Groes gan ein ficer y Parchedig John Matthews. Ar ddiwedd y daith fe gafwyd gwasanaeth yn yr Eglwys dan arweiniad ein ficer.

Dymunwn anfon ein dymuniadau gorau at bawb o'r aelodau sydd wedi bod yn cwyno yn ystod y mis.

Glasiinfryn Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasiinfryn,
Bangor LL57 4UP
01248 351067
Marred567@btinternet.com

Diolch

Hoffai Margaret Griffith, Caerhun, ddiolch o galon i'w chymdogion a'i ffrindiau sydd wedi bod yn gymorth mawr iddi yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd. Mae'r glun newydd yn plesio'n arw ac mae Margaret wedi gwerthfawrogi'n fawr yr holl gymorth y mae wedi ei dderbyn.

Diolch

Dymuna Gwyneth Jones, Y Bwthyn, 6 Waen Wen, Glasiinfryn ddiolch yn gynnes iawn i bawb am eu dymuniadau da, cardiau a galwadau ffôn tra roedd yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Mae'n falch o ddweud ei bod yn gwella'n dda erbyn hyn.

Y Ganolfan

Bydd Cyfarfod Blynnyddol Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan yn cael ei gynnal nos Lun, 11 Mehefin, am 7.30, i'w ddilyn gan gyfarfod o'r Pwyllgor.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mr Arfon Evans, Penhower Uchaf, Caerhun ar dderbyn tystysgrif gan Eglwys y Methodistiaid Calfinaidd am gyflawni hanner can mlynedd fel blaenor.

Bingo

Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y Bingo a'r Noson Goffi yn y Ganolfan ar 20 Ebrill tuag at Elusen "Sunny Day", sydd yn casglu arian i gael cadair bwrpasol i ferch ifanc o Gaerhun. Gwnaed elw o £100. Cynhelir y Bingo nesaf ar 18 Mai am 7.30 gyda'r elw'n mynd tuag at "Marchogaeth i'r Anabl" yn Nhreforth. Gwerthfawrogi unrhyw wobrau tuag at y Bingo. Diolch yn fawr.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Fercher 11 Ebrill dan lywyddiaeth Mrs Ingrid Farrer. Cydymdeimlwyd â hi yn ei phrofedigaeth ddiweddar a diolchodd i bawb am bob cymorth a dderbyniodd.

Wedi trafod materion anfonwyd dymuniadau i Margaret Griffith sy'n gwella ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Diolchwyd i Mair am drefnu pawns ym Mhlas Maenan ar 21 Mawrth. Cawsom amser difyr yn dysgu sut i drin a thyfu tegeirian cyn gwledda ar de pawns blasus. Diolch, Mair, a gobeithio y bydd pawb yn cael hwyl ar dyfu'r degeirian a gawson ni.

Gareth Roberts o Lanrug oedd ein gŵr gwadd. Roedd yn hynod ddiddorol yn sôn am "Llwybrau a Mapiau". Roedd y llwybrau'n wahanol i'r hyn yr oedd pawb yn ei ddisgwyl. Llwybrau Bywyd neu droeon yr yrfa oedd ei destun. Llwybr yn cychwyn yn Lanrug ac yn arwain i goleg yn Falmouth i astudio ffilm/ffotograffiaeth.

Dilynodd lwybrau yn gweithio ar ei liwt ei hun ac arweiniwyd ef i'r Cymro am chwe blynedd fel cartwnydd. Yna daeth cyfnod o weithio i'r Ymddiriedolaeth Archaeoleg yn tynnu lluniau o'r awyr. Yn annisgwyl, troediodd lwybr pryderus pan gafodd drawiad ar ei galon yn ifanc iawn a bu mewn ysbyty ym Manceinion am gyfnod yn cael triniaeth. Llwybr cul a hir oedd hwn ond daeth drwyddi a chael cyfle i gerdded ar hyd y Ffordd Rufeinig o Segontium i Gaer mewn tridiau gan godi arian sylweddol, saith mil o bunnau, i Sefydliad Prydeinig y Galon.

Pleser mwyaf Gareth yw dilyn llwybrau distawrwydd y nos gan dynnu lluniau gwych, yn eu plith lluniau o'r Wyddfa ac Afon Ogwen.

Llwybr diweddaraf Gareth yw creu mapiau hanesyddol i gerddwyr a gwelsom ddau sydd wedi cael eu

hargraffu, sef Troedio Llwybrau Llanrug a Chwm y Glo, a Troedio Llwybrau Plwyf Llanengan yn Llŷn. Disgwylir mwy yn y dyfodol a dymunwn bob llwyddiant iddo yn ei fenter. Diolchwyd i Gareth gan Mrs Jean Pierce a pharatowyd paned gan Mrs Linda Jones a Mrs Liz Bestwick.

Clwb 100 Y Ganolfan

£20: 29 - Barry Sanderson
£10: 64 - Myra Jones
£ 5: 39 - David Farrar
£ 5: 141 - Elfed Roberts

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ 601062

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ 600192

Gair o ddiolch

Dymuna Carys a David O'Connor, Godre'r Parc, Sling, ynghyd â'r merched Sharon a Sioned ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am eu dymuniadau gorau ar yr achlysur o ddathlu priodas Ddiemwnt Carys a David ac am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd. Diolch o galon. [Rhodd o £10 i Llais Ogwan]

Profedigaeth

Fel ardal anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf at Dyfrig Williams, Ystad Tŷ Mawr, Porthaethwy, ond gynt o Dregarth, ar achlysur colli ei annwyl briod Sadie yn sydyn ar 22 Ebrill. Yr un yw ein cydymdeimlad â'r meibion a'u teulu, sef Jonathan sy'n byw yma yn Nhrefarth ac Ian sy'n byw yng Nghaerdydd. Cofion atoch ar achlysur trist yn eich hanes. Cynhaliwyd angladd Sadie yng Nghadeirlan Bangor ar 27 Ebrill.

Cydymdeimlwn gydag Enid a Dafydd Roberts, Cae'r Wern a'r holl deulu yn yr Wyddgrug, Bethesda, Caerdydd a Rachub yn eu profedigaeth fawr o golli Menna, a fu farw yn Hosbis Tŷ'r Eos, Wrecsam ar 26 Mai.

Bore Coffi Ymchwil Canser

Ar 21 Ebrill cynhaliwyd Bore Coffi yn Neuadd Ogwen, Bethesda, i godi arian i Ymchwil Canser y Gogledd Orllewin er côf am Carwyn Thomas, Tre Ceiri, Tal y Cae, mab Emlyn ac Annwen Thomas. Llwyddwyd i godi £800 ac mae'r teulu am ddiolch o galon am bob help ar y bore ac am bob cyfraniad a chefnogaeth gan bawb yn Nyffryn Ogwen a thu hwnt i'r achos hynod deilwng hwn.

Gair o ddiolch

Yn ddiweddar ymddeolodd D. Wyn Williams, Tyddyn Dicwm, wedi blynnyddoedd yn aelod o Gyngor Cymdeithasol Llandygái. Dymunwn ddiolch iddo am ei holl waith yn ein cynrychioli fel pentref ac fel ardal.

Bu Wyn a'r aelodau eraill yn gweithio'n galed i sicrhau fod ein hardal ni yn cael pob chwarae teg o fewn Llywodraeth Leol. Traed i fyny rwan Wyn !

Yn yr Ysbyty

Mae'n dda clywed fod Sarah Griffiths, Ffordd Tanrhiw yn gwella wedi llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ystod mis Chwefror. [Ymddiheurwn fod mor hir yn anfon y newyddion i'r Llais] Yn ystod mis Chwefror ganed ŵyr bach newydd i Sarah a Tecwyn, sef Osian. Mae Osian yn fab i'w merch Rhian a'i phriod, Bro Syr Ifor, ac yn frawd bach i Sam ac Owen. Cofion atoch i gyd fel teulu.

CAPEL SHILOH

Yr Ysgol Sul am 10.30 y bore.
Y gwasanaethau eraill am 5.30

Mai 20 Trefniant Lleol
Mai 27 Parchedig Trefor Jones, Caernarfon
Mehefin 3 Parchedig Gwynfor Williams - Sacramento
Mehefin 10 Trefniant Lleol
Mehefin 17 Parchedig Siôn Aled Owen, Wrecsam
Mehefin 24 2.00 Miri Mehefin, sef Cymanfa'r Ysgol Sul yn Shiloh

Bydd Ysgolion Sul Ebeneser, Caernarfon; Bosra, Penisarwaun a Shiloh, Tregarth yn ymuno yn Miri Mehefin yng Nghapel Shiloh, pawns Sul, 24 Mehefin. Arweinydd y gân fydd Owain Arwel Davies, Bethesda a'r cyfeilydd fydd D. Wyn Williams. Yn dilyn y Miri cynhelir Tê Parti i bawb fydd yn bresennol. Dewch i fwynhau pawns o ganu gyda'r plant, y bobl ifanc a'r oedolion. Croeso mawr i bawb o'r ardal.

EGLWYS Y SANTES FAIR, Tregarth

Te Gwanwyn

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau i'r Te Gwanwyn a gynhaliwyd ar 1 Mai yng Nghanolfan Tregarth. Er fod y tywydd yn arw tu allan roedd y pawns yn un cysurus tu mewn gyda phawb yn mwynhau !

Cydymdeimlo

Bu farw Miss Mollie Keane o Rydygroes, Pentir, yn ddiweddar. Bu'n aelod ffyddlon iawn yn y Gelli rai blynnyddoedd yn ôl. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu

Clwb Cant Y Gelli

£20 - 34 - Beryl Brown
£10 - 54 - Rosemary Williams
£10 - 9 - Vera Jones
£5 - 121 - Eirwen Williams

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

Eglwys Sant Cedol

Colli Ficer

Trist iwan oedd clywed y newyddion for y Ficer, y Barchedig Nia C Williams yn gadal ein bro ar ôl gwasanaethu yn y plwyf hwn am ychydig dros bedair blynedd.

Diolchwn i Nia am ei holl waith a'i pharodrwydd bob amser i rhoi cymorth a gwrandawriad. Dymunwn yn dda iddi yn ei phenodiad fel Canon Cenhadol y Gadeirlan, Bangor. Pob hapusrwydd Nia i'r dyfodol.

Cydymdeimlwn fel Eglwys â theulu y ddiweddar Miss Molly Keen, Tŷ Nant, Rhydygroes, yn eu profedigaeth o golli chwaer a modryb annwyl.

Gwellhad

Anfonwn ein cofion at Pat Jarvis, Bro Infryn, Glasinfryn, Bill Lloyd Williams, Min Ogwen, Bethesda a Jenny Hood, y Ficerdy, Llanllechid, y tri heb fod yn dda ei hiechyd yn ddiweddar. Brysiwch wella y tri ohonoch.

Taith Ddirgel

Prynhawn Sul, 22 Ebrill, aeth nifer o aelodau a ffrindiau ar daith ddirgel o amgylch y fro gan ddilyn cliwiau cywrain. Enillwyr y daith oedd Donna a Huw. Diolch i Anya a Terry am drefnu prynhawn hwyliog a phleserus.

Garddwest

Cynhelir yr arddwest eleni am 2.00 o'r gloch brynhawn Sadwrn, 26 Mai, yn y Ficerdy, Pentir. Cynhelir cystadlauaeth Ffotograffiaeth agored ar y testun 'Byd Natur'. Bydd y gystadlueaeth yn cael ei beirniadu ar ddiwrnod yr arddwest. Bydd amrywiaeth o stondinau a Raffl. Croeso cynnes i bawb.

Bingo

Cynhelir Bingo yn y Ganolfan, Glasinfryn, Nos Wener 22 Mehefin am 7.30 y.h. Croeso cynnes i bawb.

Clwb 100 - Mis Mawrth

1af Rhif 20
Rodger Butler, Abertawe
2ail Rhif 23
Ann Williams, Glasinfryn
3ydd Rhif 35
Margaret Williams, Rhiwen

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎352835

Geni

Anfonwn ein cofion a'n llongyfarchiadau at Zoe Fisher a'i phartner Arwel Jones ar enedigaeth merch fach o'r enw Cadi Mari. Maent yn byw yn y Felinheli ond magwyd Zoe yn 1 Caeau Gleision, yn ferch i Nigel a Suzanne Fisher. Llongyfarchiadau iddynt hwythau wrth ddod yn daid a nain i Cadi Mari.

Dymuno gwellhad

Cafodd Gwenda Edwards, 2 Carfan, adnewyddu ei phen-glin yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Dymunwn iddi adferiad buan fel y caiff ailddechrau cerdded gyda'r ddau gi yn fuan iawn.

Profiad gwaith

Treuliodd Morgan Huw Evans o Gae Glas wythnos olaf gwyliau'r Pasg ar brofiad gwaith gyda Theatr Ieuencid yr Urdd yn Llangrannog. Ar y terfyn fe'i gwahoddiwyd i fynd ar daith gyda'r Theatr Ieuencid ym mis Gorffennaf fel Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol. Bydd y cwmni yn cyflwyno drama gerdd newydd yn seiliedig ar record hir Edward H Dafis, *Sneb yn Becso Dam*. Ymwelir â Theatr y Lyric, Caerfyrddin; Sherman Cymru, Caerdydd; a Phafiliwn y Rhyl (16 Gorffennaf am 7.30).

Cynghorydd Sir Newydd

Yn dilyn ymddeoliad Mrs Pat Larsen o fod yn gynghorydd dros Rhiwlas a Phenisa'r Waun dewiswyd Hefin Williams, Ffiolau'r Grug, Rhiwlas yn ddiwrthwynebiad i'w holynu. Gan fod Hefin wedi ymddeol o'i swydd fel darlithydd gyda Choleg Meirion Dwyfor bydd ganddo amser i roi sylw i'r problemau fydd yn dod i'r amlwg yn y ddwy ardal. Bu'n aelod gweithgar o Gyngor Cymuned Llanddeiniolen ers sawl blwyddyn ac ef yw cadeirydd presennol y cyngor.

Bydd newid yng nghynrychiolaeth y pentref ar y cyngor cymuned yn ogystal. Mae Elspeth Michelson, Cae'r Gof Bach wedi penderfynu ymddeol; hithau wedi rhoddi blynyddoedd o wasanaeth ar ran y pentref. Bydd Rhian Evans Cae Glas yn cymryd ei lle.

Cydymdeimlo

Dymunwn gyfleu cydymdeimad gyda theulu David Lewis Parry, Hafod Elen, Saron, Bethel a fu farw ar 8 Ebrill yn 83 mlwydd oed. Un o hogia Rhiwlas oedd Dafydd, wedi ei fagu yn Rhos Isa, o'r tu cefn i gapel Pisgah, ac yn fab i Hugh a Nel Parry. Roedd ganddo ddwy chwaer, sef y ddiweddar Myra Daniels a Gwyneth sy'n byw yn Birmingham. Symudodd i Fethel pan briododd gyda Beryl a chawsant ddwy ferch, Delyth a Carys.

Cydymdeimlwn hefyd gydag Elfyn a Ieuan Hughes, gynt o 23 Bro Rhiwen. Bu farw eu hewythr, sef y Parchedig Elwyn Jones yn Nhywyn, Meirionnydd, gweinidog gyda'r Bedyddwyr, yn 89 mlwydd oed. Un o Lanllechid oedd Elwyn, yn frawd i Nesta, diweddar fam Elfyn ac Ieuan.

Clwb Rhiwen

Yng nghyfarfod mis Ebrill daeth Eifion Jones atom o Ambiwllans Awyr Cymr. Dangosodd ddwy ffilm yn eguro mor bwysig yw'r gwasanaeth a roddir gan yr Ambiwllans Awyr wrth achub bywydau pobl sydd mewn manau anodd eu cyrraedd ar hyd y ffyrdd. Pwysleisiodd y caiff y gwasanaeth ei ariannu yn gyfan gwbl gan gyfraniadau cyhoeddus ac na dderbynnir ceiniog gan y Llywodraeth yng Nghaerdydd nac yn Llundain.


Dywedodd y gwerthfawrogir llyfrau, dillad, a mân nwyddau eraill yn eu siop elusen yng Nghaernarfon. Hoffent hefyd gael cymorth gan unigolion i weithio yn y siop. Cyflwynodd Eifion Jones ei neges yn ei ddull afieithus a hwyliog ei hun.

Cydymdeimlo

Ar 3 Mai by farw Olive Jones yn ei chartref, Talmignedd, Dyffryn Nantlle, yn 75 mlwydd oed. Roedd Olive yn ferch i Mrs Margaret Jones (Maggie) a'r diweddar Hugh Ben Jones, 2 Rhos Penrhyn, Waun Pentir ac yn chwaer i Mennai, Margaret ac Alwyn.

Dymunwn gyfleu cydymdeimlad cywir gyda'i mam a gyda'i brawd a'i chworydd a'u teuluoedd. Cofiw'n hefyd am Huw ei gŵr a'r plant Arwel ac Ann. Yr un yw ein cydymdeimlad iddynt hwythau wrth iddynt golli priod a mam oedd mor annwyl ganddynt.

Dathlu Priodas Aur.



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Ivor ac Iola Hughes, 107 Cae Glas, Rhiwlas. Dathlodd y ddau hanner can mlynedd o fywyd priodasol hapus a chytûn ar 10 Mawrth. Prin y gellir meddwl am garedicach dau nag Ivor ac Iola na dau mor barod eu cymwynas.

Merched y Wawr, Cangen Rhiwlas.

Croesawyd ni i gyfarfod mis Ebrill gan ein llywydd, Ann Roberts. Wedi trafodaeth, cyflwynwyd ein siaradwraig wadd, sef Miss Catherine Jones, Swyddog Treftadaeth Nant Gwrtheyrn. Cawsom dipyn o hanes Porth y Nant, sef enw gwreiddiol y lle, a fu'n gychfan i bysgotwyr a ffermwyr nes agor y chwarel yn 1861. Dyma'r cyfnod y datblygwyd y pentref, gan godi tai Trem y Môr a Threm y Mynydd, tŷ mawr i reolwr y chwarel, a siop hefyd. Daeth y chwarel i ben yng nghyfnod yr ail ryfel byd a lleihaodd y boblogaeth yn sgil hynny. Ond yn y saithdegau, fel y gwyddom i gyd, fe brynwyd y pentref a'i droi'n ganolfan iaith breswyl sy'n ffynnu hyd heddiw.

Eglurodd Catherine fod y ganolfan Dreftadaeth yn cynnwys arddangosfeydd sy'n darlunio hanes y pentref a'r chwedlau sy'n gysylltiedig â'r lle, megis hanes Rhys a Meinir. Cawsom sgwrs ddirif a gweld hen luniau diddorol. Roedd un ohonynt yn llun o ewythr i Sali. Diolchodd Gwen ar ran y gansen ac fe ddatgelodd iddi gymryd rhan mewn ffilm am y pentref rai blynyddoedd yn ôl, gyda'i brawd yn cynhyrchu.

Dilys ac Annes oedd yn gyfrifol am y baned a Megan enillodd y raffl.

Chwaraewr Addawol



Mae bachgen naw oed o Riwlas yn datblygu'n chwaraewr tenis addawol iawn. Ar ddiwrnod cyntaf gwyliau'r Pasg bu'n cymryd rhan mewn cystadleuaeth tenis yn Bolton. Caiff Cai gyflwyno ei hun a dweud yr hanes.

Fy enw yw Cai Llwyd Jones a rydw i yn 9 oed. Chwaraewr Tennis ydw i ac mi fyddai'n hyfforddi bob dydd. Fydda'i yn teithio i'r academi yn Wrecsam yn wythnosol a hefyd i Fae Colwyn. Ar benwythnosau mi fyddai yn teithio i Loegr i gystadlu.

Ar ddiwrnod cyntaf gwyliau'r Pasg mi es i gystadleuaeth go arbennig. Roedd 12 o chwaraewyr gorau Prydain Fawr, gan fy nghynnwys i, wedi cael gwahoddiad i chwarae tennis yn y *Bolton Arena*. Roeddwn i wedi cael yr anrhydedd oherwydd fy mod i wedi dod yn gyntaf trwy Gymru i blant 9 i 10 oed (a hynny chwe mis yn fuan). Fi oedd y bachgen ieuengaf i gymhwyso felly roedd pawb arall a fyddai'n cystadlu yn Bolton yn hŷn na fi. Ond doedd hynny ddim yn fy mhoeni, roeddwn yn edrych ymlaen at gael chwarae yn erbyn bechgyn gorau'r wlad.

Wnes i gyrraedd Bolton yn gynnar iawn fore dydd Sadwrn 30 Mawrth 2012, er mwyn cynhesu a tharo ychydig o beli cyn dechrau. Dyna sioc a gefais pan welais y *Bolton Arena* am y tro cyntaf. Roedd y lle yn anferth. Doeddwn i ddim yn gallu credu'r peth – fi yn hogyn bach o Riwlas yn chwarae mewn arena mor fawr, ac wrth gwrs yn cynrychioli Cymru. Roedd yr olygfa tu mewn yn anhygoel, wyth cwrt tenis – nefoedd!!!

Es yn syth i gofrestru ac, yn debyg iawn i'r hyn sy'n digwydd yn Wimbledon, cefais dywel Tennis!

Roeddwn ar binnau eisiau chwarae. Gafaelais mewn rased a mynd yn syth ar y cwrt i daro pêl gyda Charlie. Mae Charlie'n dod o'r Alban ac roeddwn wedi cyfarfod ag o'r blaen pan es i Nottingham. Rydwi wedi gwneud llawer iawn o ffrindiau tenis drwy'r wlad.

Roedd tri bachgen ym mhob grŵp ac yn digwydd bod roedd chwaraewr gorau Prydain fawr yn fy ngrŵp i, Ali Hassan. Wnes i chwarae yn dda yn erbyn Ali er i mi golli dwy set i un; roeddwn i'n falch iawn o'r ffordd wnes i chwarae. Ali wnaeth ennill y bencampwriaeth. Enillais yn erbyn bachgen o'r enw Kade, dwy set i un. Roedd yn gêm dda iawn ac roedd rhaid i mi weithio'n galed am bob pwynt.

Cefais brofiad anhygoel yn Bolton. Wnes i fwynhau'r profiad o chwarae yn erbyn y goreuon ac mi ddysgais lawer am fy gêm tenis i, a lle y gallai wella. Gobeithio y cai gyfle eto i chwarae yn y Bolton Arena yn y dyfodol agos.

Apêl Eisteddfod yr Urdd Rhiwlas a Phentir

Nos Wener, 20 Ebrill, yn Eglwys Sant Cedol, Pentir cafwyd cyngerdd gan Glain Dafydd er budd Eisteddfod Eryri 2012. Cynrig Hughes, Rallt Uchaf oedd arweinydd y noson ac eglurodd fod Glain yn awyddus iawn i helpu'r apêl gan ei bod yn gwerthfawrogi'r profiadau a gafodd tra'n cystadlu yn eisteddfodau'r Urdd.

Cafwyd cynulleidfa deilwng iawn ac fe ddiogwyd i bawb sydd wedi cefnogi'r apêl. Diolch hefyd i swyddogion Eglwys Sant Cedol am ganiatau inni gynnal noson yno. Roedd naws arbennig yno yn wir.

Ond mae'r diolch pennaf i Glain am roi o'i hamser i ni, a diolch hefyd i'w mam am wneud yr holl drefniadau. Bu tipyn o ffonio rhyngddi a Carys a Cynrig! Gwnaethpwyd elw oddeutu £400 sy'n sicr wedi chwyddo'r coffrau. Diolch i bawb.

Mynydd Llandygái

Theta Owen.
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygai.
☎ 600744

Diolch

Diolch i bawb a gefnogodd Bingo Wyau Pasg y Clwb Ieuencid lle gwnaethpwyd elw o £106. Braff oedd gweld y plant yn gweithio mor galed.

Genedigaeth

Dymuna Chris a Jo ddiolch am yr anrhegion, y cardiau a'r caredigrwydd ar achlysur genedigaeth eu mab Tomos John.

Diolch

Mae Ceinion ac Alison yn diolch o galon am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur eu priodas ruddem – 40 mlynedd. Pawb wedi mwynhau'r dathliad.

Clwb Garddio

Cofiwch ddod i fwynhau'r Diwrnod Hwyl ar 4 Mehefin. Bydd y gerddi ar agor, a digon o stondinau crefft ac ati. Am fwy o fanylion cysylltwch â Fiona ar 6000702 neu 600744. Bydd yr Eglwys ar agor a lluniaeth ar gael. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu.

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

20 Mai
Y Parch. Gareth Edwards
27 Mai
Mr. David R. Williams.
03 Mehefin
Mr. Huw Hughes
10 Mehefin
Y Parch. Emlyn Richards
Oedfaon am 2 o'r gloch.
Croeso cynnes i bawb

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda ☐
☎ 600689

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Eric Jones, 6 Cefn Cwlyn, yn eu profedigaeth o golli cyfneither i Eric.

Pen-blwydd arbennig

Mae Mr Eric Roberts, 59 Braichmelyn yn dathlu ei ben-blwydd yn 70 oed yn ystod y mis. Dymuniadau da a llongyfarchiadau Eric.

Symud ardal

Mae Ken a Nia Williams, 5 Cefn Cwlyn, yn symud i fyw i Erw Las. Dymuniadau gorau iddynt yn eu cartref newydd.

Yn yr ysbyty

Anfonwn ein cofion at Robin Roberts, Fflat 59 Braichmelyn, sydd yn yr ysbyty.

Aduno hen gyfeillion

Rydym yn gobeithio gallu aduno gweithiwr hynafol 108 oed o chwarel y Penrhyn gyda hen gyfeillion! Tybed oes unrhyw un o ddarllenwyr Llais Ogwan yn cofio'r injan fach Hugh Napier oedd yn gweithio yn y chwarel rhwng 1904 ag 1954/5?

Daeth cyfnod gwaith yr Hunslet 8 dunnell i ben yn 1954/5 ar ôl 50 mlynedd o wasanaeth. Wedi blynyddoedd o lafur cariad mae'r injan yn barod i godi stêm unwaith eto. Buasem yn hynod o falch clywed gan unrhyw un sydd ag atgofion am Hugh Napier yn gweithio yn y chwarel. Gellwch gysylltu â ni ar 01248-353084.

Pesda Roc

Hoffai criw Pesda Roc ddiolch i bawb am yr holl gefnogaeth i'r wyl. Roedd Pesda Roc Bach dros penwythnos y Pasg yn llwyddiant ac yn cynnwys gwledd o gerddorieth. Ar y nos Iau dangoswyd ffilm Gruff Rhys am Patagonia, Separado! Cafwyd perfformiad gan ei ewythr colledig yn y ffilm, y gitarydd mewn poncho, Rene Griffiths (isod).



Roedd nos Wener yn boblogaidd iawn gyda pherfformiadau gan Cowbois Rhos Botwnnog, Georgia Ruth a Mr Huw. Y band gwerin lleol 9bach (isod) oedd yn diddanu nos Sadwrn yr wyl ynghyd â Heather Jones. I gloi nos Sul roedd Elin Fflur a Casi Wyn yn canu. Roedd yn benwythnos bywiog dros ben a diolch i bawb ddaeth i fwynhau gyda ni.



Mae Pesda Roc wedi bod yn cynnig Cwrs Technoleg Cerdd yn Neuadd Ogwen dan arweiniad Aled Huws (Cowbois Rhos Botwnnog). Mae'r rhai sydd wedi bod yn mynd i'r gweithdai hyn wedi dysgu pob math o bethau am y sîn roc Gymraeg, o sut i greu gigs i sut i

**Y LLANGOLLEN
BETHEDA
(01248)600491**

BWYDLEN NEWYDD

Dydd Llun	5.00 - 8.30
Dydd Mawrth	12.00 -2.00/ 5.00-8.30
Dydd Mercher	12.00 -2.00/ 5.00-8.30
Dydd Iau	12.00-2.00/ 5.00-8.30
Dydd Gwener	12.00-2.00/ 5.00-8.30
Dydd Sadwrn	12.00-2.00/ 5.00-8.30
Dydd Sul	12.00-2.00



NOSWEITHIAU CYRI A PHEINT A
PIZZA A PHEINT YN DOD YN FUAN

**CERDDORIAETH
FYW**



GALWCH AM
FANYLION



recordio caneuon. Rydym hefyd wedi bod yn trefnu gigs wythnosol yn y Llangollen gydag amrywiaeth helaeth o gerddoriaeth Gymraeg. Mae'r noson cawl a chân bob mis yn Neuadd Ogwen wedi bod yn llwyddianus gyda Chaffi Coed-Y-Brenin yn paratoi pryd o fwyd hyfryd i bawb. Yn ystod noson Geraint Lovgreen a'r Enw Da daeth criw Pen8nos i ffilmio a llwyddodd Gwenllian Glyn Dafydd i ennill £695 ar gyfer Pesda Roc.

Yn y noson cawl a chân nesaf bydd Edward H yn perfformio (2 Mehefin) ac mae'n addo bod yn noson boblogaidd dros ben felly cofiwch brynu eich tocynnau o Siop Kath

mewn da bryd!
I gyd-fynd â Sioe Dyffryn Ogwen mae Pesda Roc yn trefnu gig gyda Ffermwyr Ifanc yr ardal. Ar nos Wener, 9 Mehefin, bydd Bryn Fôn a'r



Band a Bandana yn Neuadd Ogwen, croeso cynnes i bawb. Yn ogystal â'r holl gigs wythnosol a misol hyn, byddwn yn trefnu nosweithiau wedi eu hanelu at gynulleidfa ifancach. Mae'r nosweithiau hyn yn dechrau ar 7 Gorffennaf gyda *Race Horses*. Er bod mis Awst i weld yn bell i ffwrdd, rydym yn prysur baratoi ar gyfer Gŵyl Pesda Roc 2012 ac yn edrych ymlaen yn fawr at eich gweld yn yr holl nosweithiau hyn.

BARBWR OGWEN

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

**electricals
andrew duggan**

Atgyweiriadau teledu a fideo,
offer sain, derbynwyr lloeren.
Hefyd gwerthiant a gwasanaeth

38 Stryd Fawr, Bethesda LL57 3AN
Ffôn/Ffacs 01248 602584

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyo ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

**BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)**

Rydym yn croesawu partïon
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.

Ffoniwch
01248 602550

e-bost : karena@agoriad.org.uk

**Gorsaf betrol
BERAN**

Deiniolen
Ffôn: Llanberis 871521
Ar agor bob dydd 24/7

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau newydd
Cardiau pen-blwydd • Melysion
Tocynnau loteri
Gwasanaeth PAYPOINT ar gyfer
trydan, nwy, ffonau symudol,
trwyddedau teledu ayyb

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwllans Gogledd Cymru

Meithrin menter gymdeithasol leol

Am gymorth:

i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli

cysylltwch â

Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851. Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

**“J.R.”**

SGAFFALDWYR

Yr Iard, Ffordd Stesion
Bethesda

Ffôn: (01248) 601754

Dyma ni - sgaffaldwyr o fri

**MODURDY
FFRYDLAS**

Profion
M.O.T.

Perchenogion
I.D.Hughes ac A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723

Ffacs: 605068

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda

☎ ☐ 602112 (gyda'r nos 602767)

Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth

M.O.T. ar gael

Hefyd

Trwsio a Gwasanaeth

Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda

☎ 601031

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *

Oriau Agor

Llun - Gwener: 6.00 - 11.00

Sadwrn: 3.30 - 12.00

Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 - 11.00
01248 600219

www.douglas-arms-bethesda

Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey

MODURON

PANDY

Cyf.

Tregarth

Gwasanaeth ♦ Atgyweirio

Canolfan 'Unipart'

M.O.T.

Ffôn: 01248 600619 (dydd)

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith felt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

BYSUS

D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Croesair Mai 2012

AR DRAWS


- Mae llongyfarchiadau, derbyniad a chroeso brwd yn medru bod fel hyn. (7)
- Os am gastell ar y traeth, mae'n hanfodol efo rhaw. (5)
- Mae'r rhain wedi cael eu dewis, "y ---- rai". (5)
- Mae person o'i fath o'i le yn aml, yn mynd a phethau'n rhy bell a dros ben llestri. (7)
- Diddiwedd megis bywyd yn y nefoedd medd yr ysgrythur. (9)
- "Y Genod yn --- Bywyd". Cyfrol gan un o enwogion ein hardal. (3)
- Nid oes llawer o angen hwn bellach gan fod olew, nwy ac ynni solar wedi dosodli ei gynnwys. (3,3)
- Ai'r oes ddryslyd hon sy'n gwneud i ni ddychryn wrth ddarllen stori neu wyllo ffilm fel hyn. (6)
- Awyr iach i'r etifedd. (3)
- Erlid anifail dieflig, dyna achosodd hyn i'r blaidd yng Nghymru. (9)
- Mae Ffermwr Ffowc yn un smala iawn. (7)
- Rhoi rhyw syniad bras faint fydd cost y gwaith ; ---- bris. (5)
- Mae'n ffodus fod gan y wrach un. (3,2)
- Mae un i gofio am Dewi, Ifan a'r holl saint. (3,4)

- Trwy'r amser yn ddiroriad, '---, ---- a gwaith'. (3,4)
- Tynnu sylw mewn llais uchel. (6)
- Enw capel a phentref yn Arfon. (5)
- Dywedir fod diwylliant yn gwneud hyn i'ch bywyd chi. (9)
- Roedd John Parry o Nefyn, y dathlwyd tri chanmlwyddiant ei eni yn 2010 yn ----- dall. (7)
- Gellir dweud mai dyma oedd taith arwrol yr ymfudwyr o Gymru i Batagonia yn 1865. (9)
- Twlsyn i dynnu hoelion, - morthwyl ----- . (7)
- Gwlad yn y Dwyrain Canol yw'r Emiradau ----- Unedig. (7)
- Yr arfordir dros Bont 'Rabar i'r de-orllewin o Gaernarfon. (1,5)
- Yr hyn a wneir yn 24 Ar Draws. (5)
- "Hen bethau anghofiedig ---- ryw." Waldo Williams. (5)

ATEBION CROESAIR EBRILL 2012

- AR DRAWS** 1. Pab; 3. Hon; 5. Tebyg; 8. Saron; 9. Sbectol; 10. Iarll; 11. Llenorion; 13. Pedoli; 14. Cysgod; 17. Ynys Werdd; 19. Ifan; 22. Anfoddog; 23. Grimp; 24. Nodyn; 25. Non; 26. Tal.

- I LAWR** 1. Pesi; 2. Byrbryd; 3. Heno; 4. Nisien; 5. Treforys; 6. Bwtri; 7. Gelenod; 12. Olewydden; 13. Prydain; 15. Gofaint; 16. Cragen; 18. Ynfyd; 20. Nepal; 21. Egin



Dau gamgymeriad bach ddaeth i'r amlwg y tro hwn. Yr un a faglodd nifer ohonoch oedd 'arwyddlun cwmni olew enwog' a'r ateb wrth gwrs oedd 'Cragen' (Shell) a nid Dragon! 'Hon' oedd teitl y gerdd am Gymru. Y cyntaf o'r het y mis yma yw Menna Davies, Carwyn, 16 Y Garnedd, Llanfairpwll, Môn. LL61 5EX. Llongyfarchiadau mawr i chi, ac i'r canlynol hefyd am atebion cywir : Elfed Evans; Karen Williams, Llanllechid; Cath Aran; Rita Bullock; Ann Carran, Bethesda; Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Rhiannon Thomas, Abergwyngregyn; Elizabeth Buckley; Dulcie Roberts, Tregarth; Alwena Thomas; Jean Hughes, Talybont; Emrys Griffiths, Rhosgadfan.; Doris Shaw, Bangor.

Atebion erbyn dydd Mercher, 30 Mai i 'Croesair Mai', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

I LAWR

- Gwrthrych drama enwocaf yr ugeinfed ganrif medd rhai beirniad, gan Samiwel, (nid William Samiwel). Fedwrch chi ddisgwyl amdano ? (5)
- Enw cyntaf awdures ac actores Gymraeg y gyfres gomedi deledu boblogaidd "Gavin and Stacey". (3)

CHWILAIR MIS MAI

Busnesau ym Methesda

A	A	W	T	S	E	W	G	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	
B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	M	G	V	H	M	D	W	H
U	U	A	H	T	Y	W	R	F	F	R	W	H	T	R	E	W	G	Z	P
T	M	X	V	A	D	D	N	A	P	A	U	Q	U	S	O	F	R	E	P
R	Y	Q	C	R	Y	D	D	Z	C	G	R	H	C	U	M	W	I	N	O
I	Y	R	I	A	S	Z	U	L	T	F	D	X	U	P	W	N	R	H	C
N	Q	H	W	E	H	O	Y	Y	E	E	G	E	O	M	T	H	E	P	T
I	T	C	B	B	C	D	U	U	J	P	L	T	M	I	I	V	R	V	D
W	C	B	B	F	W	R	F	O	G	J	V	I	W	I	O	R	Y	R	X
R	I	M	H	Y	T	T	O	S	K	O	P	Y	W	L	R	C	W	M	K
G	C	B	R	O	R	C	X	V	R	Y	R	H	G	G	S	T	F	M	R
W	E	F	Y	J	D	Z	H	B	C	T	W	R	O	Y	S	C	F	R	A
A	I	X	N	I	L	X	J	J	A	M	W	B	W	D	T	E	A	X	M
L	D	X	K	F	U	P	C	I	Q	H	Y	O	I	D	L	F	R	E	R
L	Z	Q	R	O	C	T	D	G	C	W	S	L	D	E	Z	E	G	B	E
T	F	F	O	T	O	G	R	A	F	F	Y	D	D	M	A	J	R	K	J
C	L	N	L	R	V	O	N	G	J	P	Y	W	P	G	S	O	A	W	J
J	Q	U	L	F	S	S	V	T	X	G	E	B	A	N	C	U	G	H	S
L	Z	E	A	F	A	X	I	W	I	T	Z	H	K	V	A	G	B	N	K
A	D	S	I	M	K	O	G	C	D	H	B	S	I	U	R	O	X	A	G

YN y chwilair hwn mae un o'r atebion wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chi ddod o hyd i'r gweddill? (Gwyddom fod Ll, Ch, Dd, Th ac yn y blaen yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwy fel dwy lythyren ar wahân.) Atebion, gyda'r enw a'r cyfeiriad, os gwelwch yn dda, i André Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-Coed, Bethesda, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 2 Mehefin. Bydd gwobr o £5.00 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd neb wedi cael y 12 yn gywir rhoddir y wobwr i'r sawl fydd wedi cael y nifer fwyaf yn gywir.

Y mis yma mae deuddeg busnes a oedd yn bodoli ym Methesda tua'r flwyddyn 1886.

Wrth roi y chwilair at ei gilydd y mis diwethaf, ni feddyliais am gynnwys enw PERO ci John a Mair ynddo, ond trwy rhyw hap a damwain fe syrthiodd y llythrennau PERO wrth ei gilydd, a chafodd llawer ohonoch hyd i'r enw ond nid oedd yn un o'r deuddeg yn y rhestr.

Dyma atebion Ebrill: Bysus Arriva (gwerthu ticedi'r cwmni), Chweddeg-dau mlynedd (oes y busnes), Cymdeithas Pysgota (gwerthu trwydded y Gymdeithas), Dau dim un dau (blwyddyn cau), Ebrill (cychwyn y busnes), John Wyn Jones, Mair Jones, Mawrth (cau'r busnes), Neuadd Ogwen (gofalu am y Neuadd), Swyddog Gosod (Canolfan Cefnfaes), Un naw pump dim (cychwyn y busnes), William Edwin Jones (Y perchennog cyntaf)

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir: Merfyn a Laura Jones, Tregarth; Alun Wyn Morris, Gerlan; Elizabeth Buckley, Tregarth; Karen Williams, Hen Barc Llanllechid; Doris Shaw, Bangor; Rosemary Williams, Tregarth; Mair Jones, Ffordd Bangor; Mrs Glenys Clark, Tregarth; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Eirlys Edwards, Central Garage Bethesda; Herbert Griffiths, Tregarth; Marilyn Jones, Glanffrydlas Bethesda.

Enillydd Ebrill oedd: Marilyn Jones, 1 Glanffrydlas Bethesda.

D. E. HUGHES

a'i feibion cyf

YMGYMERWYR ADEILADAU
N.H.B.C.
Gardd Eden, Stryd Fawr,
Rachub, LL57 3HF

Ffôn a Ffacs 01248 602010

SAER I.D.R. JOINERY

Busnes Ifanc Cymraeg Lleol

Am waith saer o safon uchel a
phris diguro
Cysylltwch ag IWAN



07553 977275



01248 602062

Cymwysedig a phrofiadol ym
mhob agwedd ar waith saer.
Dibynadwy a chyfeillgar.

L. Sturrs

a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Ffôn: 600953

Ffacs: 602571

Malinda Hayward

(Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgwymerwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



Tudur Owen, Roberts, Glynne

a'u cwmni



DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG

BETHESDA
01248 600171

torgbethesda@hotmail.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT

SYMUD TŶ

OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475

pandv.owen@btinternet.com

Tony Davies

Plymio a Gwresogi

Tŷ Capel Peniel, Llanllechid
Rhif Corgi 190913

Symudol 078184 10640

01248 601 466

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



O'r Cyngor

Cyngor Cymuned Llandygái
Cynhaliwyd cyfarfod Ebrill yn Neuadd Goffa Mynydd Llandygái gyda'r Cyngorydd Mrs Mair Owen Pierce yn y gadiar. Estynwyd croeso i Mr Huw Davies, Dirprwy Brif Weithredwr Antur Waunfawr, a amlinellodd y gwaith a wneir gan yr Antur. Maent yn creu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant, yn gyflogwr cynaliadwy ac yn gariwr gwastraff cofrestredig, gyda'r holl incwm yn aros yn lleol.

Mae'r Cyngor Sir wrthi'n paratoi cynllun llinellau melyn dwbl yn yr ardal oherwydd fod amryw o gerbydau'n cael eu parcio mewn safleoedd peryglus. Mae cyflymder trafniadaeth y B4409 dan ystyriaeth. Bydd gwaith traenio hefyd yn cael ei wneud ar rai o ffyrdd a llwybrau'r ardal. Er yr hoffai'r Cyngor Sir ailwynebu'r ffyrdd ym mhentref Llandygái ni ellir gwneud hynny ar hyn o bryd, ond os bydd arian ar gael yn nes ymlaen efallai y gellir cynnwys y safle ar y rhaglen waith.

Derbyniwyd copi o ymateb y Cyngor Sir i'r Cyngorydd Dafydd Owen a fu'n cwyno fod gwaith priffyrdd yn cael ei wneud gan ymgymerwyr o'r tu allan i'r ardal.

Da yw sylwi fod y rhan fwyaf o'r cynghorwyr cymuned wedi cael eu haillethol ond bydd yn chwith ar ôl

Cyngor Cymuned Llanllechid
Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill o'r Cyngor Cymuned yn Festri Capel Bethlehem, Talybont gyda'r Cyngorydd Megan Tomos yn y gadiar.

Croesawyd Huw Davies, Antur Waunfawr i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Rhoddodd Huw ychydig o gefndir ynglŷn â sut y sefydlwyd Antur Waunfawr, yr hyn y maent yn eu wneud yn bresennol er mwyn creu gwaith ac yn y maes ailgylchu. Eglurodd fod sawl menter yn cael ei chynnig ganddynt e.e casglu ac ailgylchu dillad, casglu ac yna adnewyddu a gwerthu dodrefn, llarpio papurau personol. Maent yn cynnig gwasanaeth casglu dillad o ddrws i ddrws gan dargedu gwahanol ardaloedd yn eu tro trwy ddsbarthu bagiau plastig ac yna eu casglu yr wythnos ganlynol. Eglurodd hefyd eu bod yn cydweithio gydag ysgolion y sir er mwyn cael ymgyrch casglu dillad ac fe fydd yr ysgol yn derbyn rhodd ariannol yn ôl pwysa'r dillad. Diolchwyd iddo am yr wybodaeth gan y Cadeirydd.

Mae'n fwriad gan y cyngor cymuned osod hysbysfwrdd ym

mhentref Talybont yn y dyfodol agos. Aeth y Cynghorwyr allan i ymweld a'r safle dan sylw. Fe fydd yn rhaid aros yn awr i gael caniatâd gan Swyddog Trafnidiaeth y Cyngor Sir cyn ei osod.

Ni fydd etholiad yn cael ei chynnal yn yr etholaeth gan mai deg enw a dderbyniwyd i'r ddeg sedd. Diolchwyd i'r Cyngorydd Dafydd Meurig am ei waith caled dros y blynedd diwethaf gan na fydd yn eistedd fel Cyngorydd Cymuned y tro hwn. Fe fydd yn parhau i gefnogi'r Cyngor Cymuned ond yn ei rôl yn Gyngorydd Sir.

Cyngor Cymuned Pentir
Cyfarfu'r Cyngor yn y Ganolfan, Penrhosgarnedd gyda'r Cyngorydd Marred Jones yn cadeirio.

A4244 - Adroddodd y Cyng Lowri James iddi gynyrchioli'r cyngor mewn cyfarfod safle i drafod gosod cyfyngder cyflymder ar y ffordd drwy Bentir. Roedd cynyrchiolwyr o Gymdeithas Parchu Pentir, y Cyngorydd Sir, John Wyn Williams, Alun Fred Jones A.C. a chynyrchiolwyr o'r Heddlu a'r Cyngor Sir yn bresennol. Teimlad y Cyng James ar y cyfan oedd nad oedd pethau wedi symud ymlaen lawer o gofio fod Parchu Pentir wedi gweithio'n galed i gasglu tystiolaeth dros osod cynfyngiad ac wedi cyflwyno deiseb i'r Cyngor Sir. Teimlai'n siomedig at agwedd rhai o swyddogion gwahanol gyrff statudol a oedd yn bresennol. Mae'n bur amlwg yn ôl y Cyng James nad yw'r Heddlu yn cefnogi cyfyngu ar y cyflymder o gwbl.

Iaith Bysys Padarn
Cafwyd gwybodaeth fod y Cyngor Sir yn trefnu cyfarfod gyda'r Cwmni i drafod y mater ymhellach. Penderfynwyd aros nes y bydd cyfarfod wedi ei gynnal.

Etholiad Mai
Adroddwyd fod nifer o seddi gwag i'w llenwi ar ôl 3 Mai gan fod nifer o Gynghorwyr wedi rhoi'r gorau i'r gwaith. Mae 4 sedd i'w llenwi yn ward Pentir/Faenol ac un yn ward Pentir/Glasinfryn. Dylsai rhywun sydd â diddordeb mewn cynyrchioli yr ardal roi eu henwau i'r Clerc cyn 1 Mehefin, 2012.

Apêl Tŷ Coch
Cafwyd gwybodaeth fod apêl wedi ei wneud yn erbyn penderfyniad y Cyngor Sir i wrthod cais cynllunio i addasu adeiladau allanol yn ddau fwthyn gwyliau ac un anedd parahol ar y safle. Atgoffwyd y Cyngor mai gwrthwynebu wnaeth y Cyngor Cymuned ar y sail fod y ffordd at fynedfa'r safle yn un brysur a pheryglus. Cafwyd gwybodaeth

hefyd fod llifogydd yn effeithio ar ddarnau o'r safle ac yr oedd pryder y gallai hynny waethygu os y byddai'r datblygiad yn cael ei ganiatau.

Diolchiadau

Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf y Cyngor cyn yr etholiadau, diolchodd y Cyngorydd Marred Jones am gefnogaeth y Cyngor yn ystod ei blwyddyn fel Cadeirydd. Teimlai weithiau yn rhwystredig gan fod yr un materion yn codi yn aml. Engraffit o hyn yw diffyg cefnogaeth yr awdurdodau i osod cyfyngiad cyflymder ar y ffordd drwy Bentir. Llwyddwyd o leiaf i gadw gwasanaeth bysiau o Lasinfryn i Fangor ond siom oedd gorfod ildio'r gwasanaeth i Fethesda. Llwyddwyd i gyfrannu yn ariannol at Eisteddfod yr Urdd 2012 drwy bwyllgorau lleol, ac hefyd i roi cyfraniad ariannol at weithgareddau yn ysgolion y Faenol a'r Garnedd. Gadawyd bwllch mawr o fewn y Cyngor gyda marwolaeth y Cyng Dai Rees Jones, arian byw o ddydd gyda'g gwybodaeth eang o waith a threfn llywodraeth leol. Diolchodd i nifer o Gynghorwyr sydd wedi gwasanaethu ers nifer o flynyddoedd ond sydd bellach yn rhoi gora i'r gwaith, yn eu plith y Cyng. James Griffiths, S. Lansdown, D.H. James ac R.G. Roberts. Dywedodd y Cyng Griffiths mai braint oedd cael cynyrchioli'r ardal ers 1974 gan fod yn gadeirydd ddwywaith yn yr amser yma. Yn ystod cyfnod ei gadeiryddiaeth yr agorwyd Pont Britannia.

HYSBYSIAD Cyngor Cymuned Pentir

Yn dilyn etholiadau Cynghorau Lleol ar 3 Mai 2012 mae un sedd wag i'w llenwi ar y Cyngor Cymuned, a hynny yn ward Pentir/Glasinfryn. Os am wasanaethu trigolion yr ardal cysylltwch â'r Clerc ar 01248 601880 cyn 1 Mehefin 2012.

Plaid Cymru, Cangen Dyffryn Ogwen

Etholiadau Cyngor Gwynedd

Yn dilyn yr etholiadau ar 3 Mai does dim newid yng nghynrychiolwyr Dyffryn Ogwen, gyda Phlaid Cymru yn dal eu gafael yn eu tair sedd, sef Ogwen, Gerlan ac Arllechwedd, Y Blaid Lafur yn llwyddo, o drwch blewyn, i gadw sedd Tregarth a Mynydd Llandygái gyda dim ond chwe phleidlais rhwng y Cyngorydd Dafydd Owen (442) a'r Cyngorydd Gwen Griffith (448). Mae'r Cangen yn llongyfarch Dafydd am ei waith diflino dros gyfnod yr ymgyrch. Llongyfarchiadau hefyd Dyfrig Wynn Jones ar gadw ei sedd yn y Gerlan gyda mwyafrif clir o 200 pleidlais, ac i'r Cyngorydd Ann Williams (Ogwen) a'r Cyngorydd Dafydd Meurig (Arllechwedd) a ddychwelwyd yn ddiwrthwynebiad. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Gyngor Cymuned Llandygái

Mae'r Cyngorydd Wyn Williams, Tyddyn Dicwm, wedi ymdeol o Gyngor Cymuned Llandygái. Mae'r cangen yn ddiolchgar iawn iddo am ei holl waith dros flynyddoedd maith ac yn dymuno ymdeoliad hapus iddo.

Arweinydd Newydd

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Ieuan Wyn Jones, AC, yn diolch am y gefnogaeth a dderbyniodd tra'n arweinydd y Blaid dros y 12 mlynedd diwethaf. Anfonwyd llythyr at ein harweinydd newydd, Leanne Wood, i'w llongyfarch ac i'w gwahoddi i Ddyffryn Ogwen.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Da oedd clywed fod cynghorwyr cymunedol y Blaid Lafur yn Nyffryn Ogwen wedi cael eu hail ethol yn ddiwrthwynebiad, sef pedwar cynghorydd Cyngor Bethesda a dau ar Gyngor Llandygái. Da hefyd oedd croesawu'r cynghorydd Pearl Evans yn ôl wedi pum mis o salwch.

Erbyn i rifyn Mai o'r Llais gael ei gyhoeddi bydd canlyniad gornest sirol yn ward Tregarth / Mynydd Llandygái yn hysbys, a beth bynnag fo'r canlyniad, dymuna'r cangen ddiolch i'w hymgeisydd, Gwen Griffiths am ei gwaith clodwiw ar y Cyngor Sir dros y blynedd diwethaf.

Cynhelir cyfarfod nesaf y cangen ar y bedwaredd nos Fercher o'r mis sef 23 Mai yng Nghanolfan Cefnfaes. Yna mae'r cangen yn gobeithio cynnal stondin yn y Sioe Amaethyddol, Mehefin 9fed am y tro cyntaf.

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Casglu Arian

Mae'r ysgol yn rheolaidd yn casglu arian at lawer o elusennau, ac yn ddiweddar daeth cyfle i gasglu tuag at Ymddiriedolaeth Salwch ar yr Iau mewn Plant. Mae un o fechgyn blwyddyn 9, Sion Guto Roberts, yn dioddef o salwch ar yr iau, a bu'n fraint inni i gyd i wisgo dilledyn melyn am y dydd i gasglu cyfanswm o £400 at yr elusen.



Dyma lun Siôn a rhai o'i ffrindiau ar y diwrnod.

Ffug Gynhadledd

Yn ddiweddar fe wnaeth criw o flwyddyn 12 gymryd rhan mewn ffug gynhadledd Cenhedloedd Unedig yn Siambr y Sir yng Nghaernarfon fel rhan o gwrs y Fagloriaeth Gymreig. Roedd nifer o ysgolion ar draws Gogledd Cymru yn cymryd rhan, ac yn cynrychioli gwledydd ar draws y byd. Cawsom gyfle i weld sut mae'r Cenhedloedd Unedig yn gweithredu. Cafodd y chwech ohonom ni ein gwahanu i ddau dîm; roedd Erin Bryn, Mari Gwyn a Siân Mererid Jones yn cynrychioli'r Deyrnas Unedig a Catrin Roberts, Kainât Jones a Bethan Elis Jones yn cynrychioli Oxfam. Roedd y 'pwyllgor' yn trafod materion bwyd y byd, gan ganolbwyntio ar Somalia ac India. Drwy gydol y dydd roedd "y gwledydd" megis Rwsia, yr UDA a Ffrainc, yn trafod beth allai gael ei wneud i helpu'r ddwy wlad gyda'u problemau bwyd a thlodi. Roedd yn ddiwrnod diddorol iawn i gymryd rhan ynddo, a dysgom lawer am ddulliau gweithredu'r Cenhedloedd Unedig. Roedd yn brofiad gwych cael gweld sut mae gwleidyddiaeth rhyngwladol yn gallu amharu ar eu penderfyniadau a'r ffordd maent yn gweithio gyda gwledydd eraill. Cawsom weld pa mor gyfrwys a dau wynebog gallai rhai gwledydd fod!



Siân Mererid, Mari Gwyn ac Erin Bryn yn y ffug-gynhadledd

Yr Adran Addysg Gorfforol


Gweithgareddau Dŵr

Bu 30 disgybl o flwyddyn 8 am wythnos o 'Weithgareddau Dŵr' ym Mhlas Menai cyn yr hanner tymor. Mudiad o'r enw 'Chwaraeon Dŵr Gogledd Cymru' oedd yn noddi'r wythnos, a'r bwriad oedd hybu'r diwydiant morwrol yn y gogledd. Cafodd y criw wythnos brysur yn dysgu hwylio, canwio, a hwylyfrddio, a chyrrhaeddodd pawb y safon



angenrheidiol i sicrhau tystysgrif yn eu camp! Diolch i Mr Dafydd Harris Davies am ei gefnogaeth yn ystod yr wythnos.

'Action Aid'



Bu disgyblion dosbarth 8 Idwal, Ysgol Dyffryn Ogwen yn brysur yn gwneud cacennau bach er mwyn eu gwerthu amser egwyl yn y neuadd. Cafodd pob cacen ei gwerthu a casglwyd £60 ar gyfer noddi plentyn yn Fietnam drwy Action Aid.



Mae'r tîm rygbi dan 13 wedi colli yn rownd derfynol plât Eryri o 12-5 yn erbyn Ysgol Llangefni. Chwaraeodd y tîm yn dda iawn a gwnaethant yn arbennig o dda i gyrraedd y rownd derfynol.



Tlws Y Goron Driphlyg

Galwodd Chris Williams, ein Swyddog Datblygu Rygbi rhanbarthol yn yr ysgol gyda thlws Y Goron Driphlyg enillodd Cymru trwy guro Lloegr yn Twickenham bythefnos ynghynt!

Daeth cannoedd o blant o'r ysgol ac o'r ysgolion cynradd lleol i gael tynnu eu lluniau efo'r tlws. Yn y llun fe welwch brif ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen, Gwion Williams a Rhiannon O'Marah yn dal y tlws gyda balchder.

Ysgol Tregarth

Ymwelwyr o Ghana

Croesawyd ein hymwelwyr o'n hysgolion partner, y *Great Royal* ac ysgol *Adafienu* yn Ghana yn ddiweddar. Bu Vincent, Godwin, Caroline a Thomas yn aros yn Nhregarth am wythnos a chawsom gyfle i fynd â'r pedwar o amgylch yr ardal i ddangos harddwch ein gwlad.

Treuliodd y pedwar eu hamser yn arsylwi ar y plant ac yn rhoi cyflwyniadau ar y thema *Dathliadau*.

Cafwyd gwasanaeth hyfryd ddiwedd yr wythnos ble roedd disgyblion o bob dosbarth yn eu tro yn trafod un o dathliadu Cymru.

Mae pedair aelod o'r ysgol yn edrych ymlaen i ymweld a Ghana ymhen ychydig wythnosau.

Gemau Olympaidd

Ar 18 Ebrill dathlodd yr ysgol gyfan 100 diwrnod hyd at gychwyn y gemau Olympaidd. Cynhaliwyd gweithgareddau gymnasteg rhythmig, hoci, rhedeg, taflu pêl a beicio am 20 munud a 12 eiliad. Cafodd pawb andros o hwyl yn cymryd rhan. Rydym i gyd yn edrych ymlaen at y gemau go iawn rwan!

Garddio

Mae'r tymor garddio wedi dechrau eto er gwaetha'r tywydd garw. Bu blwyddyn 4 wrth'n tacluso a chwynnu ac mae'r tatws wedi eu plannu ynghyd ag amrywiaeth o hadau. Gobeithiwn am ychydig o haul iddynt gael ffynnu.

Ymwelwyr Uganda

Cafodd yr ysgol bleser croesawu Jolly George a'r Parchedig Richard Opio o Uganda yn ddiweddar. Daeth y ddau i ymweld a'r ysgol gyda'r Parchedig Robert Townsend. Cyflwynwyd Neges Ewyllys Da yr Urdd iddynt gan ddsbarth Ffrydlas a dysgodd y ddau gân yn eu tafodiaith draddodiadol i'r plant. Cafwyd prynhawn difyr iawn yn eu cwmni



Ymwelwyr o Ghana yn Ysgol Bodfeurig

Tag Rygbi



Mae plant yr adran Iau wedi bod yn mwynhau cymryd rhan mewn hyfforddiant Tag Rygbi yn ddiweddar. Mae'r hyfforddiant yn arwain at Wyl Tag Rygbi a gynhelir yn fuan. Diolch i'r myfyrwyr sydd wedi bod yn eu hyfforddi.

Ysgol Bodfeurig

Gemau Olympaidd

Gyda'r haf ar ei ffordd mae pawb yn edrych ymlaen i weld y Gemau Olympaidd yn dod i Lundain. I ddathlu fod 100 diwrnod tan diwrnod agoriadol y gemau cafwyd bore o hwyl a gweithgareddau yn yr ysgol. Gwaith Llysgenhadon Efydd yr ysgol oedd hybu'r diwrnod a diolch i Sasha a Maccen am eu gwaith caled!



Daeth pawb i'r ysgol wedi gwisgo mewn dillad o wledydd fydd yn cystadlu yn y gemau cyn cael cyfle i roi cynnig ar rai o'r cystadleuthau megis taflu gwaywffon, y clwydi, taflu disgen a'r ras gyfnewid. Bydd edrych ymlaen yn fawr rwan am y digwyddiad ei hun!

Ymwelwyr o Ghana

Ers rhai blynnyddoedd bellach mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gyda dwy ysgol yn Ghana. Mae nifer o athrawon o Ghana wedi ymweld â'n hysgol ni ac mae Mrs Evans wedi ymweld â Ghana ddwywaith. Y mis yma daeth cyfle i bedwar o athrawon ifanc o Ghana ymweld a dysgu am ein ffordd ni o fyw yng Nghymru. Cawsant wythnos brysur yn yr ysgol, yn Ysgol Tregarth, ac yn ymweld a nifer o lefydd arbennig yn yr ardal. I ddathlu'r cysylltiadau yma cafwyd gwasanaeth arbennig yn yr ysgol. Edrychwn ymlaen yn fawr i barhau â'r cysylltiadau.

40fed SIOE AMAETHYDDOL DYFFRYN OGWEN, BETHESDA

Sadwrn Mehefin 9fed 2012


ar
Gaeau Rygbi
BETHESDA

Ceffylau
Cwn
Cartref
Dofednod
Defaid
Mabolgampau
Stondinau

Mynediad

Oedolion £4.00
Pensiynwyr £2.00
Plant £1.00

www.sioedyffrynogwen.co.uk



Ysgol Llanllechid

Buddugoliaeth yn yr Ŵyl Ffilm Ryngwladol



Do wir! Llwyddiant ysgubol unwaith eto! Llongyfarchiadau calonogol i'r disgyblion ar eu buddugoliaeth anhygoel yn yr Ŵyl Ffilmiau Ryngwladol *Zoom 2012* yn y Rhondda yn ddiweddar. Daeth y Ffilm: *Moli'n Holi* i'r brig unwaith yn rhagor! Llongyfarchiadau i Dylan Robertson, Gethin Hughes, Moli Smith, Enlli Hughes, Bethan Hughes, Joshua Hughes, Morgan Davies a Dion Coulton Palmer. Llauer o ddiolch i bawb am eu cefnogaeth, ac yn arbennig i'r rhieni, a nain a taid Joshua, a deithiodd i lawr ar y bws hefo ni. Ar hyn o bryd rydym yn trafod pa gystadleuaeth y dylem edrych arni nesaf! Gŵyl Ffilmiau Cannes?!

Llongyfarchiadau i'r canlynol:

I Ms Angharad Thomas ar ei dyweddiad â Mr Gareth Roberts. Dymuniadau gorau i'r ddau!

I'r ysgol am lwyddo i dderbyn Cam 5 – Her Iechyd Cymru – Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd. Diolch i Mrs Parry Owen am gydgordio'r gwaith.

I'r ysgol ar dderbyn tystysgrif o ganmoliaeth gan y Cyngor Prydeinig am lwyddo i gynnal safon rhagorol yn ein gwaith Addysg Byd.



I dri o'r disgyblion am eu llwyddiant ym maes Celf a Chrefft: Cerys Elen [Bl 2] y wobwr gyntaf am argraffu; Ithel [Bl 3] am waith 3D ac Idris [Dosbarth Derbyn] am waith 2D. Bydd pawb yn edrych ymlaen i weld y gwaith buddugol ar faes yr Eisteddfod yng Nglynllifon!

Marathon Llundain 2012



Ar ddydd Sul Ebrill 22ain fe redodd Mr Huw Jones a Mr Stephen Jones ym Marathon Llundain. Cafodd y ddau ddiwrnod bendigedig a hoffai'r

ddau ddiolch i'r plant, y rhieni, cyd-aelodau staff a'r gymuned leol am eu holl gefnogaeth. Llwyddodd Ysgol Llanllechid i godi £814 tuag at elusennau'r ddau sef *Meningitis Trust a Get Kids Going* – swm rhagorol.

Sioe Plant Cynradd yr Urdd

Mae criw o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 yn brysur yn ymarfer ar hyn o bryd ar gyfer y sioe gynradd 'Ar Gof a Chadw' a fydd yn cael ei pherfformio ym mhafiliwn yr Urdd yn ystod Eisteddfod Eryri 2012. Pob hwyl iddynt. Bydd yn brofiad bythgofiadwy.

Arbed Dŵr

Newyddion da i chi rieni oll gobeithio. Fel rhan o'n hymgyrch Ysgol Werdd bu'r disgyblion yn dysgu am ddefnydd dŵr a sut i arbed dŵr yn ein cartrefi gan gynnwys sut i archebu bag ar-lein gan Ddŵr Cymru fydd yn arbed llawer o ddŵr wrth dynnu'r tsaen yn y lle chwech!!

Posau di-ri

Dydd Gwener diwethaf bu'r ysgol gyfan yn datrys problemau mewn amrywiol ffyrdd trwy gydol y dydd a chafwyd diwrnod gwerth chweil! Diolch i chi rieni a ddaeth i mewn atom i gefnogi'r digwyddiad.

Caffi Seren

Ewch draw am dro i gaffi Seren i weld gwaith Celf rhai o'r digyblion!

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Helen Williams ar golli aelod o'i theulu sef y Parchedig John Elwyn Jones. Bu John Elwyn Jones yn gweinidogaethu yn Ninas Mawddwy am nifer helaeth o flynyddoedd. Cof arbennig amdano.

Brysiwch Wella!

Anfonwn ein cofion at Mrs Mona MacDonald. Rydym yn falch o glywed ei bod mewn hwyliau da ac yn tynnu tuag at ddiwedd y driniaeth. Anfonwn ein cofion hefyd at Mrs Nerys Philips sy'n prysur wella.

Ysgol Pen-y-bryn

Rygbi



Prynhawn Mawrth, 24 Ebrill aeth plant blwyddyn 3 i lawr i gaeau Dôl Dafydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau rygbi tag oedd wedi cael eu trefnu gan ddisgyblion Cwrs BTEC Chwaraeon Ysgol Dyffryn Ogwen. Cafwyd prynhawn diddorol a phrysur, ac roedd yn braf iawn cael cyfarfod plant o ysgolion eraill y dalgylch a chael cyfle i wneud ffrindiau newydd. Roeddem yn lwcus iawn gyda'r tywydd gan fod yr haul wedi gwenu arnom trwy'r prynhawn. Diolch yn fawr i ddisgyblion Dyffryn Ogwen am drefnu mor drylwyr ar ein cyfer.

PC Dewi Thomas

Diolch o galon i PC Dewi Thomas am ddod atom 24 Ebrill i drafod pwnc hynod bwysig, sef cyffuriau ac alcohol. Unwaith eto, cafwyd cyflwyniad difyr, llawn gwybodaeth ganddo ac ymatebodd y plant i gyd yn bositif. Trôdd y cwis ar y diwedd yn dipyn o gystadleuaeth rhwng y timau!!

Criced

Dechreuodd plant Glyder wersi criced ar 30 Ebrill gyda Nicola o Blas Ffrancon. Bu'r plant yn dysgu llawer o sgiliau pwysig ac maent yn edrych ymlaen at y gwersi i ddod. Diolch yn fawr iawn, Nicola!

P'nawn Hwyl Iachus

Bu'r Cyngor Ysgol wrthi'n brysur yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer y 'Prynhawn Hwyl Iachus' a gynhaliwyd y dydd Gwener cyn gwyliau'r Pasg. Bu pob dosbarth wrthi'n brysur yn coginio a pharatoi gweithgareddau i hybu ffitrwydd. Cafwyd prynhawn llwyddiannus a chodwyd dros £300. Mae'r arian yn mynd at elusen *Race For Life* ac i brynu adnoddau ffitrwydd. Diolch yn fawr iawn i aelodau o Gyngor Chwaraeon Ysgol Dyffryn Ogwen am eich help a'ch cefnogaeth.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau mawr i Mathew Buchanan, Siôn Davies a Ben Williams o ddosbarth Elidir sydd wedi cael eu dewis i gynrychioli Gogledd Cymru mewn gêm rygbi. Pob dymuniad da hefyd i Mathew Buchanan sydd â threialon yng Nghaerdydd i gynrychioli Cymru mewn criced. Dymunwn pob llwyddiant i'r tri.

Rhyd Ddu



Cafodd plant blwyddyn 5 ddiwrnod difyr iawn yng nghwmni Morfudd a Cemlyn yn Rhyd Ddu ar 20 Ebrill. Ni rwystrodd y glaw a'r oerni y plant rhag cael llond trol o hwyl! Yn wir, ychwanegodd y neidio i'r pyllau dŵr a straffaglu trwy'r corsydd at y mwynhâd! Hoffem ddiolch o galon i Morfudd a Cemlyn am eu croeso. Welwn ni chi flwyddyn nesaf!

Nyth y Gân

Cyfrinachau

Gwyliaf yno don ar don
Yn rowlio tua'r marian,
A herio maent bob craig o'r bron
I brofi gwerth ei tharian,
A'i gwir atal a wna hi
I ddagrau'r tonnau lepiant.

Daw o'r don y synau caeth
Sy'n suddo'n ddwfn i'r eigion,
Ond ar brydiau cawn ar draeth
Rhyw gynnwrf 'mysg y gwymon
A phan gerddwn ar y gro
Dan draed fe glywn sibrydion.

Sawl cragen wag sy'n llawn o swyn,
A gwerth yw gwrandao arni,
O'i rhoi wrth glust dim ond er mwyn
Cael clywed beth sydd ganddi;
Gwnaiff hithau hefyd fel y gro
Ddatgelu straeon inni.

Y Chwarel

Dilynodd lwybrau trwm ei daid
Yn fachgen ifanc am fod raid
Yn sw'n ei 'sgidia hoelion mawr
Ychydig wedi toriad gwawr.

Bu'n tynnu'r graig o'r clogwyn llwyd
I'w hollti yno'n brydau bwyd,
A'i gŷn fu'n atsein ar y bonc
O'i daro'n hir â dyfal donc.

Nid craig yn unig holltai'r cŷn,
Fe greodd hollt rhwng dyn a dyn,
Mae'r hanes wedi'i gloi fel dur
I gofio'r pell amseroedd sur.

Sgwrsio

Gwerinwr hynod ydoedd
Yn ôl ei wisg a'i sgwrs,
A mwy'n ei ben o lawer
Na'r hyn oedd yn ei bwrs.

Dros baned bŵm yn trafod
Ag ef a'i wraig am hir,
A rhannu yr un cariad
Oedd gennym at ein tir.

Mor lân â ffrwd y mynydd
Y llifai rywiog iaith
Yn trin a thrafod geiriau
Wrth rannu gwên sawl gwaith.

Yr iaith yn bur ar wefus
A'n denodd yno i gwrdd
A grym ei gwres a deimlwyd
Yn drindod 'gyloch y bwrdd.

Hedd Wyn

O hyd yn fyw ond yn ei fedd dramor
Lle mor drwm y gorwedd;
O'i daro i lawr daeth mawredd
A gwir naws i Ysgwrn Hedd.

Dafydd Morris

Hydref

Yn wridog y crina'r rhedyn, - a dail
Fel dwylo yr henddyn;
Glaw yn rhaeadr gwyllt i'r glyn,
A llaid y lliwiau wedyn.

Goronwy Wyn Owen

Ysgol Abercaseg

Arolwg 'Rhagorol' a Pharti Gwych

Cynhaliwyd parti mawr ar 26 Ebrill i ddathlu llwyddiant ysgubol yr ysgol yn yr arolwg diweddar lle dyfarnwyd gradd 'Rhagorol' ym mhopeth!!! Daeth consuriwr a 'Doctor Zigs' gyda'i swigod sebon anferthol draw i ddiadanu'r plant a'u teuluoedd a chafwyd prynhawn gwerth chweil. Diolch i Anti Ellen ac Anti Eleri am baratoi'r holl gacenau blasus.

Gwefan Newydd

Mae gan yr ysgol wefan newydd lle gellir darllen y newyddion diweddaraf, cylchlythyrau, edrych ar y calendr a llawer, llawer mwy. Cyfeiriad y wefan yw www.ysgolabercaseg.org

Clwb cinio a phrynhawn Ysgol Abercaseg

O fis Medi, bydd 'clwb cinio' (11am-1pm) a 'chlwb prynhawn' (1pm-3pm) yn cael eu cynnal i ddisgyblion y dosbarth meithrin ar safle'r ysgol. Gan fod clwb ar ôl ysgol a 'chlwb brecwast' eisioes yn yr ysgol, bydd hi'n bosibl i bob plentyn dderbyn gofal yn ddyddiol, ar dir yr ysgol, o 8am i 6pm!!

Am fwy o fanylion cysylltwch â'r ysgol.

Croeso a hwyl fawr

Croeso i'r ddwy fyfyrwraig o Brifysgol Bangor atom i'r ysgol a phob hwyl a diolch i Ms Sturrs, sydd wedi ein gadael i gychwyn ar ei swydd newydd.

Ailgylchu Dillad

Mae yna fin ailgylchu dillad wedi ei osod y tu allan i brif fynedfa'r ysgol. Mae croeso i unrhyw un ym Methesda, sy'n dymuno ei ddefnyddio, wneud hynny.

Talebau Tesco

Cofiwch ein bod yn casglu'r talebau yn yr ysgol.

Rhodd i'r ysgol

Diolch unwaith eto'r flwyddyn yma, i staff a chwsmeriad 'Tafarn y Tarw' am eu rhodd o £150 i'r ysgol. Rydym yn werthfawrogol iawn ac am wario'r arian yn ddoeth.

YSGOL ABERCASEG

Clwb Tŷ Wendy

Bydd Clwb Cinio (11.00 - 1.00), Clwb Prynhawn (1.00 - 3.00) a Chlwb ar Ôl Ysgol (3.00 - 6.00) ar safle Ysgol Abercaseg o fis Medi 2012.

Mae 2 swydd angen eu llenwi.

Arweinydd Clwb Cinio (Prynhawn)

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar Lefel 3/5 mewn gofal plant.

Oriau - 11.00 i 3.00

Goruchwyliwr Plant

Oriau - 30 awr yr wythnos.

Bydd y swydd yma yn galluogi rhywun i ennill cymhwyster NVQ gofal plant tra'n derbyn cyflog.

Mae'n rhaid bod yn rhugl yn y Gymraeg ar gyfer y ddwy swydd.

Am fanylion pellach ffoniwch 07818000415 neu ebostiwch wendy.evans1@hotmail.co.uk

**Y BWTHYN TE
pen y ceunant isaf
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS**



PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 15ed. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG
YMA, YN OGYSTALA
GOLYGFYDOD GWYCH DROS
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYD
DIODYD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN * YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606

www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

Ysgol Rhiwlas

100 Diwrnod



Bu'r plant wrthi'n brysur yn dathlu 100 diwrnod cyn y gemau Olympaidd. Sicrhaodd ein 'Llysgenhadon Efydd' bod y sesiwn yn un egniol dros ben. Diolch i Ben a Cassie am eu gwaith caled. Fe symudodd y plant am 20 munud a 12 eiliad ar weithgareddau corfforol. Yn dilyn llwyddiant y sesiwn penderfynodd y Cyngor Ysgol i wneud hyn yn wythnosol tan ddiwedd y tymor. Diolch i'r Cyngor unwaith eto am syniad gwych.

Rygbi



Cafodd plant blwyddyn 3 gyfle i gymryd rhan mewn twrnament rygbi yng Nghlwb Rygbi Bethesda. Trefnwyd y prynhawn gan ddisgyblion cwrs BTEC. Ysgol Dyffryn Ogwen. Cychwynodd y prynhawn gyda sesiwn hyfforddi a phob plentyn yn cael bod yn aelod o dîm. Braff oedd cael gweld pob ysgol yn y dalgylch yn cael llwyddiant. Rwy'n siwr fod gennym chwaraewyr y dyfodol yma yn Rhiwlas!

Karate

Diolch i Sense Sara a Bret unwaith eto am ddod i'r ysgol i hyfforddi'r plant. Braff oedd gweld y plant yn mwynhau cymaint ac yn gweithio mor galed. Ond gwell na hyn oedd clywed eu bod yn ymddwyn mor gwrtais yn y gwersi. Da iawn chi blant.

Nofio

Rydym mor falch o lwyddiant y plant yn y pwll nofio. Cawsom alwad ffôn gan aelod o'r pwll yn eu brolio am eu hymdrechion a'u hymddygiad. Braff oedd derbyn yr alwad a'r neges.

Eisteddfod.

Bwrlwm, bwrlwm! Mae'r adran Iau wrthi'n brysur yn paratoi sioe 20 munud ar gyfer y babell berfformio dydd Gwener, 8 Mehefin ac mae Erin yn aelod o dîm dawnsio Sereioni'r Cadeirio. Bu'r adran Iau hefyd yn cynllunio arwydd i'w osod ar ochr y brif ffordd. Mae hyn yn ran o gystadleuaeth yr Urdd i hyrwyddo'r Eisteddfod. Edrych ymlaen i'w weld i fyny. Yn sicr bydd yn tynnu sylw pawb sy'n mynd heibio!

Y Rhyfel Mawr

Yr hogiau fel blodau blin – a yswyd
Ar faes anghynefin
Y gwaed, a'r petalau gwin
Yn feddw, yn fôr o fyddin.

Angau

Eiliad, a geilw'r gelyn – dros riniog
Y drws i'r hen dyddyn;
Er mai bedd yw diwedd dyn
Ni oedir yno wedyn.

Goronwy Wyn Owen

EICH CYFLE OLAF

Partneriaeth Ogwen

Ydych chi'n byw o fewn ardal Cynghorau Cymuned Bethesda, Llandygai, Tregarth neu Llanllechid? A ydych wedi gweld yr holiadur sydd yn gofyn eich barn? Dyma eich cyfle chi i ddweud beth fuasech yn dymuno ei weld mewn ganolfan ganolog.

Beth ydych yn credu sydd ei angen?

Pa elfennau sy'n bwysig ar gyfer canolfan? Does dim ond ychydig o ddiwrnodiau ar ôl eto i'w llenwi. Mae'r holiadur syml ar gael o wahanol gymdeithasau siop Kathy, Post Llanllechid capeli a thafarndai'r ardal.

Peidiwch a cholli'r cyfle hwn, fel y dywed yr hen ddywediad: "Does dim pwynt codi pais....."
Rhaid i'r holiadur fod i mewn erbyn 21 Mai i un o'r cynghorwyr lleol, siop Kathy neu i Morfydd Wyn Roberts, Llwyn Meurig, Rhos y Nant. Neu gallwch eu llenwi a'u gadael yn y man i gael ei chasglu.

Llythyrau

Annwyl ddarllenwyr,

Mae'n siŵr y bydd nifer ohonoch yn ymwybodol o'r ffaith bod Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn dathlu ei hanner canmlwyddiant eleni. Bydd rhai ohonoch hefyd wedi clywed am ŵyl gerddorol arbennig, '50' sy'n cael ei chynnal fel rhan o'r dathliadau hanner canmlwyddiant, a hynny yn y Pafiliwn ym Mhontrhydfendigaid ar 13-14 Gorffennaf (mwy o wybodaeth ar y wefan hannercant.com).

Bydd 50 o grwpiau ac artistiaid cerddorol unigol yn cymryd rhan yn y *gig* arbennig yma, a bydd nifer o weithgareddau mymlol hefyd yn cyfrannu at yr hyn sy'n siŵr o fod yn ddigwyddiad cofiadwy. Un o'r gweithgareddau mymlol hynny fydd arddangosfa arbennig yn dathlu perthynas agos y Gymdeithas â'r sîn gerddoriaeth Gymraeg, ac rydym yn lansio apêl am eitemau a allai fod yn ddefnyddiol wrth baratoi'r arddangosfa hon.

Bydd yr arddangosfa'n rhoi sylw i weithgaredd cerddorol y Gymdeithas dros y pum degawd diwethaf ac rydym yn chwilio am bob math o eitemau, boed yn bosteri gigs, lluniau o ddigwyddiadau, crysau T, ffansins neu unrhyw femorabilia arall.

Rydym hefyd yn awyddus iawn i glywed atgofion arbennig pobl o gigs a digwyddiadau adloniadol y Gymdeithas dros y blynyddoedd. Oes yna ddigwyddiadau yn aros yn y cof? A fu i chi gwrdd ag unrhyw un arbennig yn un o'r gigs? Pa fandiau ddaethoch chi ar eu traws gyntaf yn un o gigs y Gymdeithas?

Os oes gennych unrhyw eitemau fyddai'n ddefnyddiol i ni greu'r arddangosfa arbennig yma, neu atgofion yr hoffech anfon i ni yna gallwch wneud hynny trwy e-bostio arddangosfa@hannercant.com. Os nad oes modd anfon eitem yn electronig yna gallwch ffonio swyddfa'r Gymdeithas ar 01970 624 501 i wneud trefniadau eraill.

Rydym yn ddiolchgar iawn am unrhyw gyfraniad i'r arddangosfa a gobeithio y bydd modd i chi ymuno â ni ym mis Gorffennaf i ddathlu gorffennol, presennol a dyfodol perthynas Cymdeithas yr Iaith â'r sîn gerddoriaeth Gymraeg.

Yn gywir iawn,
Toni Schiavone

Beth sydd ymlaen yn y Dyffryn?

NEUADD OGWEN, BETHESDA

BOREAU COFFI 

19 Mai: Ysgol Sul Jerusalem
 26 Mai: Sefydliad y Merched Carneddi
 02 Mehefin: Gŵyl Afon Ogwen
 09 Mehefin: R.N.L.I.
 16 Mehefin: Capel Jerusalem
 23 Mehefin: Eglwys Crist, Glanogwen
 30 Mehefin: Eisteddfod Dyffryn Ogwen

(Bob bore Sadwrn am 10.00 o'r gloch)



9 Mehefin
Marchnad Cynnyrch Lleol
Cae Sioe Dyffryn Ogwen, Dôl Ddafydd
10.00 – 2.00

www.facebook.com/marchnad-cynnyrch-lleol-ogwen-local-produce-market

Cymanfa Annibynwyr
Dosbarth Bangor a Bethesda

CYMANFA YSGOLION SUL
 Dydd Sul, 20 Mai 2012
 yng
 Nghapel Pendref, Bangor
 Yn y bore am 10.30

Hefyd
CYMANFA GANU
 am 5.30 o'r gloch
 yng Nghapel Bethlehem,
 Talybont
 Arweinydd Cerddorol:
 Mr Elfed Morgan Morris
 Eitemau: Côr Plant Llandygai
 (Gwneir casgliad yn y ddau gyfarfod)

Trefnir bws i gyfarfod y bore
 Manylion gan Neville Hughes
 (Ysgrifennydd) ar 600853

Pesda Roc a Ffermyr Ifanc Dyffryn Ogwen yn cyflwyno



NOSON SIOE OGWEN
BRYN FÔN
A'R BAND
Y BANDANA +DJ
nos sadwrn 9.6.12 8pm
Neuadd Ogwen, Bethesda
 Tocyn £7 o flaen llaw neu £9 ar y drŵs
 Argael o Siop Kath, Sioe Ogwen, Rall Eryri, Yr Urdd a mwy

Merched y Wawr Rhanbarth Arfon
 (Is-bwyllgor er budd yr Anabl)

Cynhelir
FFAIR HAF
 yng
 Nghanolfan Ebeneser, Caernarfon
 Dydd Gwener, 15 Mehefin 2012
 10.00. – 12.00 y bore

Mynediad £1.00
 (yn cynnwys paned o de neu goffi)
 Yr holl elw tuag at
 Urdd Cyfeillion Ysbyty Eryri Caernarfon

NEUADD OGWEN BETHESDA

GYRFA CHWIST
 22, 29 Mai
 12, 26 Mehefin
 am 7 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr



PESDA ROC YN CYFLWYNO

'H' A'R BAND
 (CLEIF HARWOOD A NIFER O GYN-AELODAU EDWARD H DAFIS)
 GYDA PRYD O FWYD WEDI'W BARATOI GAN CAFFI COED-YBRENIN

NOS SADWRN MEHEFIN 2, 2012 7PM
NEUADD OGWEN, BETHESDA
 TOCYN £10 ARGAEI O SIOP KATH, PESDA A WWW.SADWRN.COM
 NIFER CYFYNEDIG A MAE BAR!

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs
 Caffi Fitzpatrick 11.00 – 12.00
 Dydd Sadwrn cyntaf pob mis

Peint a Sgwrs
 Douglas Arms Bethesda
 20.00 – 21.00
 Trydydd Nos Lun pob mis

WU SHU KWAN



Bocsio Cic Tsieineidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau yng Nghanolfan Gymdeithasol Tregarth bob nos Fercher 6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch â'r hysbyseb hwn hefo chi
 ♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena Fitzpatrick - 01248 602416
 neu galwch heibio'r dosbarth

CYLCH MEITHRIN CEFNFAES
CYLCH TI A FI

FFAIR HAF
SADWRN 23 MEHEFIN
 Lleoliad i'w gadarnhau
 Dewch yn llw i gael hwyl.
 Mwy o fanylion i ddilyn

Hysbysebwbwch
 eich gweithgareddau

AM DDIM
 yn y Llais!

Cysylltwch â Neville Hughes
 600853

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan **Tasg**,
 Gorffwysfa, Sling, Tregarth
 LL57 4RJ  07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
 Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
 01248 601669